




GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru
Wales Health Impact Assessment Support Unit

Asesiad o'r Effaith ar Iechyd: *Canllaw ymarferol ar gyfer arferion gorau gwirfoddol yng Nghymru*



Chwefror 2026

Mae'r Canllaw hwn ar gyfer unrhyw un sy'n dymuno cynnal Asesiad o'r Effaith ar Iechyd gwirfoddol.

Mae *Asesiad o'r Effaith ar Iechyd: Canllaw ymarferol ar gyfer arferion gorau gwirfoddol yng Nghymru (2026)* wedi'i ddatblygu gan Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'n ddiweddariad i'r canllaw blaenorol: *Asesiad o'r Effaith ar Iechyd – Canllaw Ymarferol* (Wales Health Impact Assessment Support Unit, 2012).

Dylai cyrff cyhoeddus yng Nghymru sy'n gyfrifol am gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd (HIAs) statudol gyfeirio at ***Reoliadau Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd (Cymru) 2025: Canllaw i gyrff cyhoeddus yng Nghymru (2026)***.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English

Awgrym ar gyfer Cyfeiriad: Green, L; Ashton, K; Parry-Williams, L; Evans, L; Azam, S; Evans, N. 2026.

ISBN 978-1-83766-799-4

© 2026 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Gellir atgynhyrchu'r deunydd a gynhwysir yn y ddogfen hon o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored (OGL) www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/ cyn belled â'i fod yn cael ei wneud yn gywir ac nad yw'n cael ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Cydnabyddiaeth i'w nodi i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Rhagair

Mae Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (HIA) wedi cael ei gydnabod ers tro yng Nghymru yn offeryn pwerau ar gyfer rhoi iechyd, llesiant a thegwch wrth wraidd gwneud penderfyniadau. Wrth i'n cymunedau wynebu heriau sy'n fwy-fwy cymhleth—o newid hinsawdd a newidiadau technolegol, i bwysau cymdeithasol ac economaidd cynyddol—ni fu erioed yn bwysicach i ni ddeall sut mae polisiâu, cynlluniau a phenderfyniadau'n effeithio ar fywydau pobl.

Mae'r Canllaw HIA gwirfoddol newydd hwn ar gyfer Ymarfer yng Nghymru yn ategu'r canllaw ar gyfer cyrff cyhoeddus sy'n cynnal HIA statudol. Mae'n disodli'r canllaw ar gyfer ymarfer blaenorol, ac yn darparu adnodd cynhwysfawr wedi'i ddiweddarau sy'n hygyrch i'r rhai sydd am ddysgu am HIA a'u cynnal. Er bod gofyn i gyrff cyhoeddus gynnal HIA wrth wneud penderfyniadau strategol, mae HIA hefyd yn cynnig cyfle pwysig i ystyried effeithiau ehangach **penderfyniad, polisi, cynnig, cynllun neu brosiect ar iechyd, llesiant a thegwch pan gânt eu cynnal yn wirfoddol** ac mae'n dangos ymrwymiad ar y cyd cymunedau a sefydliadau ar draws sectorau i lunio dyfodol iachach yn rhagweithiol, a hynny yn deg.

Mae gan Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru (UGAEIC), Iechyd Cyhoeddus Cymru, rôl ganolog i'w chwarae wrth gryfhau'r ffordd y caiff HIA eu defnyddio. Fel canolfan arbenigedd a gydnabyddir yn rhyngwladol, mae UGAEIC yn darparu cyngor, hyfforddiant a chymorth ymarferol i ymarferwyr, boed nhw'n newydd i'r broses neu'n brofiadol wrth gynnal HIA. Mae'r offer a'r cyngor yn y canllaw hwn wedi'u seilio ar gymhwysiad yn y byd go iawn, ac maent wedi'u llunio gan flynyddoedd o brofiad ymarferol, ymchwil ac ymgysylltiad. Mae'r canllaw hwn yn cynnig cyngor clir ac ymarferol ar gyfer cefnogi sefydliadau i gynnal HIA o ansawdd uchel a chymesur, wedi'u seilio ar werthoedd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ac egwyddorion tegwch, cyfranogiad a chynaliadwyedd. Yn anad dim, mae'r canllaw hwn yn tynnu sylw at y ffaith bod HIA yn fwy nag offeryn; yn hytrach, mae'n ffordd o weithio. Mae HIA yn annog cynnal deialog agored, ymgysylltiad a chyfranogiad cynhwysol, a myfyrio meddylgar ar sut mae ein penderfyniadau'n llunio iechyd a llesiant cenedlaethau heddiw ac yfory.

Drwy gofleidio'r cyfleoedd a gyflwynir drwy gynnal HIA gwirfoddol, a chyda chefnogaeth arbenigol UGAEIC, gallwn greu amodau sy'n galluogi pobl i ffynnu. Bydd y canllaw hwn yn helpu i sicrhau bod iechyd, llesiant a thegwch yn parhau i fod wrth wraidd ein taith gyffredin tuag at Gymru iachach, decach a mwy cynaliadwy.

Dr Sumina Azam

Cyfarwyddwr Cenedlaethol Polisi ac Iechyd Rhyngwladol, Canolfan Gydwethredol
Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant, Iechyd Cyhoeddus Cymru

Cynnwys

Rhagair	3
Trosolwg	5
A: Diffiniadau allweddol a chyd-destun polisi	6
B: Beth yw Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (HIA)?	9
C: Camau Arferion Gorau yn y broses HIA wirfoddol	17
Geirfa	32
Cyfeiriadau	34
Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru (UGAEIC)	36
Atodiadau	37

Trosolwg

Proses y gellir ei rhoi ar waith ar draws pob maes polisi, sector a lleoliad yw **Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (HIA)** er mwyn asesu sut y gallai iechyd, llesiant a thegwch poblogaeth - neu grwpiau penodol ynddi - gael eu heffeithio, neu sut y bu iddynt gael eu heffeithio, gan bolisi, rhaglen, cynllun, penderfyniad neu brosiect (y cyfeirir atynt ar y cyd fel 'cynnig' drwy gydol y canllaw hwn). Gall helpu i gryfhau a gwneud y mwyaf o effeithiau cadarnhaol cynnig neu benderfyniad ar iechyd a llesiant a gall gefnogi lliniaru unrhyw ganlyniadau negyddol neu anfwriadol cynigion. Mae hefyd yn rhoi pwyslais ar ystyried yr effeithiau ar grwpiau poblogaeth a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau.

Mae'r canllaw hwn yn cyfrannu at weledigaeth Cymru ar gyfer HIA. Gall y broses HIA gefnogi rhoi cysyniad iechyd ym Mhob Polisi (HiAP) ar waith, sy'n golygu gweithio ar draws systemau a lleoliadau er mwyn ystyried iechyd a llesiant a gall helpu i leihau anghydraddoldebau iechyd.



Mae'r canllaw yn gwneud hyn drwy **ddarparu cyd-destun ar gyfer HIA yng Nghymru, trosolwg o'r broses HIA** yn seiliedig ar arferion gorau, ac **adnoddau ymarferol er mwyn helpu i gefnogi gweithredu HIA** ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol mewn ffordd o ansawdd uchel, sy'n effeithiol o ran amser ac adnoddau, sy'n **gymesur** ac sy'n **systematig**.

Mae'r canllaw wedi'i rannu'n dair adran:

- **A: Diffiniadau allweddol a chyd-destun polisi**
- **B: Beth yw HIA?**
- **C: Proses arferion gorau ar gyfer HIA ac adnoddau ymarferol ar gyfer sut i gynnal HIA**

Ar gyfer pwy mae'r canllaw hwn?

Mae'r canllaw ar gyfer unrhyw un o unrhyw sector sydd eisiau neu sydd angen arwain, comisiynu neu gymryd rhan mewn HIA gwirfoddol neu unrhyw un yr effeithir arno gan gynnig ac y mae o'r farn bod HIA yn broses ddefnyddiol iddynt.

Mae canllawiau ar gyfer cyrff cyhoeddus yng Nghymru sy'n bwriadu cynnal HIA fel gofyniad statudol o dan Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 ar gael mewn canllaw ar wahân: ***Rheoliadau Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd (Cymru): Canllaw i gyrff cyhoeddus yng Nghymru (2026)***.

Mae'r canllaw yn canolbwyntio ar HIA yng Nghymru ac yn cynnwys cyfeiriadau at adnoddau Cymreig. Fodd bynnag, gellir defnyddio'r wybodaeth sydd yn y canllaw hwn mewn gwledydd a chyd-destunau eraill hefyd, ar y cyd ag unrhyw ganllawiau penodol i wledydd sydd ar gael.

A: Diffiniadau allweddol a chyd-destun polisi



Iechyd a llesiant

Mae model cymdeithasol neu holistaidd o iechyd, yn hytrach na model biolegol sy'n canolbwyntio'n syml ar absenoldeb afiechyd neu absenoldeb bod yn sâl, yn sail i HIA. Mae Deddf Sefydliad Iechyd y Byd 1948 yn diffinio iechyd fel a ganlyn: '*Mae iechyd yn gyflwr o lesiant corfforol, meddyliol a chymdeithasol cyflawn ac nid rhyddid rhag salwch neu wendid yn unig.*' (World Health Organization, 1948)


Mae ystyried iechyd mewn ffordd holistaidd yn golygu dau beth allweddol:

1. Gall iechyd olygu pethau gwahanol i bobl wahanol yn dibynnu ar eu bywydau a'u profiadau.
2. Mae iechyd yn cael ei ddylanwadu gan ffactorau cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol ac economaidd ehangach — gelwir y rhain yn *benderfynyddion ehangach iechyd* (Sefydliad Iechyd y Byd, 2017).

3. Penderfyniadau Ehangach Iechyd

Gall llawer o sectorau y tu hwnt i'r sector iechyd ei hun, gan gynnwys lleoliadau a sectorau cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol, er enghraifft addysg neu dai, gael effaith uniongyrchol neu anuniongyrchol ar iechyd a llesiant. Mae'r rhain yn dylanwadu ar yr amodau y mae pobl yn cael eu geni, yn tyfu, yn byw, yn gweithio, yn chwarae ac yn heneiddio ynddynt. Gelwir y ffactorau hyn yn 'benderfyniadau ehangach neu gymdeithasol iechyd' (Dahlgren and Whitehead, 2021; The Health Foundation, 2023; Figure 1). Gall gwahaniaethau yn y ffordd y mae'r ffactorau hyn yn effeithio ar bobl ddylanwadu ar iechyd a gallant greu neu gynyddu anghydraddoldebau iechyd a chymdeithasol. Gall yr effeithiau hyn fod yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol; yn amlwg a/neu'n fwriadol; yn anodd eu nodi ac/neu'n anfwriadol.

Ffigur 1: Penderfyniadau ehangach iechyd (Dahlgren and Whitehead, 2021)



Anghydraddoldebau ac annhegwch iechyd

Gellir diffinio anghydraddoldebau iechyd fel y gwahaniaethau systematig mewn statws iechyd a llesiant grwpiau gwahanol (McCartney et al., 2019). Gellir diffinio annhegwch iechyd fel gwahaniaethau mewn statws iechyd sy'n ddiangen, y mae modd eu hosgoi, sy'n annheg ac sy'n anghyfiawn. (The Kings Fund, 2025; gweler Ffigur 2).


Ffigur 2: Cydraddoldeb yn erbyn Tegwch*

CYDRADDOLDEB:

Mae pawb yn cael yr un peth – ni waeth a yw'n angenrheidiol neu'n iawn iddynt.

TEGWCH:

Mae pawb yn cael yr hyn sydd ei angen arnynt – deall y rhwystrau, yr amgylchiadau a'r amodau



Hawffrinc 2022: Sefydliad Robert Wood Johnson

* Atgynhyrchwyd gyda chaniatâd Sefydliad Robert Wood Johnson, Princeton, N J (Robert Wood Johnson Foundation, 2022).

Mae HIA yng Nghymru yn ystyried yn systematig anghydraddoldebau presennol, a photensial, mewn ystod o grwpiau poblogaeth a allai gael eu heffeithio gan y cynnig. Mae hyn yn cynnwys y rhai â nodweddion gwarchodedig fel y nodir yn Neddf Cydraddoldeb (2010) a grwpiau incwm yn y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yng Nghymru. (UK Government, 2010; Welsh Government, 2021). Fodd bynnag, mae HIA yn ystyried ystod llawer ehangach o grwpiau poblogaeth na nodweddion gwarchodedig a'r rhai sy'n ofynnol yn gyfreithiol yn unig. Mae'r grwpiau hyn yn cynnwys unrhyw grwpiau poblogaeth sydd, neu a allai fod, yn agored i effeithiau negyddol anfwriadol polisi, cynllun, cynnig neu benderfyniad fel y rhai mewn cymunedau gwledig, y rhai sydd â chyflyrau cronig, y rhai sydd mewn perygl o ynysigrwydd cymdeithasol ac allgáu cymdeithasol, a gofalwyr.

Nod HIA yw hyrwyddo tegwch a gwneud y mwyaf o botensial cynnig i wella a diogelu iechyd a llesiant a lleihau unrhyw effaith negyddol neu effaith anfwriadol.

Mae HIA yn defnyddio'r dystiolaeth a'r data gorau sydd ar gael ac yn cynnwys profiad a gwybodaeth rhanddeiliaid. Mae deall yr anghydraddoldebau iechyd a brofir gan rhanddeiliaid a grwpiau gwahanol yn y boblogaeth yn rhan bwysig o HIA.

Cyd-destun polisi

Mae Cymru wedi bod yn hyrwyddo dull HiAP ers tro byd lle mae cyrff cyhoeddus 'yn rhoi ystyriaeth systematig i oblygiadau iechyd penderfyniadau ac yn osgoi effeithiau niweidiol ar iechyd, er mwyn gwella iechyd y boblogaeth a thegwch' (European Centre for Health Policy, 1999).

Mae ***Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017*** (Welsh Government, 2017) yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ddatblygu Rheoliadau sy'n nodi'r amgylchiadau sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i gyrff cyhoeddus gynnal HIA. **Rhaid** i bob corff cyhoeddus yng Nghymru, fel y'i diffinnir gan Lywodraeth Cymru, gynnal HIA **yn unol â'r amgylchiadau a bennir** yn y rheoliadau. Mae'r ddyletswydd hon wedi'i deddfu yn y Rheoliadau sydd i ddod i rym ar 6 Ebrill 2027.

Mae ***Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*** (WFG Act; Welsh Government, 2015) yn nodi'r egwyddor datblygu cynaliadwy sy'n golygu bod yn rhaid i gorff cyhoeddus weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb gyfaddawdu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Mae corff cyhoeddus yn gwneud hyn pan fydd yn ystyried **integreiddio, meddwl yn hirdymor, atal, cydweithio, a chynnwys** yn y lleoliad, gan gymryd camau a chyflawni ei [amcanion llesiant](#). Nod y 'pum ffordd o weithio' yw cynnwys egwyddorion HiAP - er mewn ffordd ymhlyg a heb eu henwi'n uniongyrchol - er mwyn hyrwyddo saith nod llesiant, sy'n cynnwys iechyd, tegwch, yr economi, yr amgylchedd, a chymdeithas, a chynnig fframwaith ar gyfer eu cyflawni. Mae'r nodau hyn yn ymwneud â dau ar bymtheg o Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig (United Nations, 2020).

Mae'r dirwedd bolisi yng Nghymru yn cynnwys dyletswyddau statudol eraill, a gall tystiolaeth a gesglir i lywio HIAs fod yn ddefnyddiol wrth lywio asesiadau o'r effaith rheoleiddiol eraill. Er enghraifft, y *Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus*. Fel HIA, mae gan ddyletswyddau eraill hefyd ddiben cyffredin i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a brofir gan grwpiau poblogaeth, yn benodol y grwpiau hynny sydd â nodweddion gwarchodedig (megis oedran, anabledd neu ethnigrwydd) neu amgylchiadau (megis anfantais economaidd-gymdeithasol).

Mae *Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol Cymru 2011* yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus asesu effaith debygol polisiau ac arferion ar eu gallu i gydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus; sef, sut maent yn a) dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth, b) hyrwyddo cyfle cyfartal ar gyfer pobl â nodweddion gwarchodedig, ac c) meithrin cysylltiadau da rhwng y rhai â nodweddion gwarchodedig a'r rhai hebddynt. Defnyddir Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn rheolaidd fel yr offeryn i ddeall effeithiau tebygol ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig, er mwyn cydymffurfio â'r ddyletswydd. Gall cynnal HIA helpu i lenwi neu ddarparu tystiolaeth er mwyn cefnogi asesiadau effaith eraill sy'n dangos bod dyletswyddau eraill yn cael eu hystyried a'u cyflawni heb ddyblygu amser ac adnoddau. Gall defnyddio HIA helpu i fodloni'r gofynion a nodir mewn llawer o'r dyletswyddau eraill.

B: Beth yw Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (HIA)?



Mae HIA yn broses ymarferol, systematig ond hyblyg sy'n seiliedig ar dystiolaeth y gellir ei defnyddio i nodi unrhyw effeithiau neu gyfleoedd cadarnhaol ar iechyd corfforol a meddyliol, a llesiant, ac unrhyw effeithiau negyddol neu anfwriadol. Mae'n nodi ac yn dadansoddi pwy mewn poblogaeth a allai gael eu heffeithio'n gadarnhaol neu'n negyddol gan benderfyniad a sut y gellir mynd i'r afael ag unrhyw anghydraddoldebau iechyd. Mae hefyd yn darparu argymhellion ymarferol a realistig ar gyfer gweithredu i wneud y mwyaf o'r effeithiau cadarnhaol a lliniaru'r effeithiau negyddol wedi'u nodi. Mae HIA yn addas i'w ddefnyddio ar draws ystod o leoliadau a sectorau ac mae'n cynnig tystiolaeth a gwybodaeth er mwyn llywio prosesau gwneud penderfyniadau.

Mae Consensws Gothenburg y Ganolfan Ewropeaidd ar gyfer Polisi Iechyd (1999) yn diffinio HIA¹ fel a ganlyn:

'cyfuniad o weithdrefnau, dulliau ac offer y gellir eu defnyddio i fesur polisi, ymyriad neu wasanaeth o ran ei effeithiau posibl ar iechyd poblogaeth, a dosbarthiad yr effeithiau hynny o fewn poblogaeth' (European Centre for Health Policy, 1999).

HIA yw un o'r prif ddulliau o roi egwyddor HiAP ar waith, sef 'ymagwedd at bolisïau cyhoeddus sy'n rhoi ystyriaeth systematig i oblygiadau iechyd penderfyniadau ac yn osgoi effeithiau niweidiol ar iechyd, er mwyn gwella iechyd y boblogaeth a thegwch' (European Centre for Health Policy, 1999). Mae HIA hefyd yn broses sy'n hyrwyddo cydweithio traws-sector, gan galluogi cyfranogiad ac ymgysylltiad â phob rhanddeiliad.

¹ Mae yno ddiffiniadau eraill o HIA hefyd (International Association for Impact Assessment, 2014).

Beth yw manteision cynnal HIA?

Mae HIA yn broses sy'n eich galluogi i ystyried yn systematig sut y gall penderfyniadau mewn meysydd ar draws sectorau a lleoliadau ar amrywiaeth o lefelau effeithio ar iechyd a llesiant pobl - cenedlaethol, rhanbarthol, lleol, cymunedol ac ar draws lefelau gwneud penderfyniadau gwahanol - o strategol i weithredol.

Mae gan HIA sawl budd i iechyd a llesiant, i gymunedau a sefydliadau, drwy ganolbwyntio ar fynd i'r afael ag atal. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Adnabod risgiau'n gynnar (atal sylfaenol).
- Gweithio i wneud iechyd corfforol a meddyliol yn decach i bawb, fel llwybr i atal afiechyd a lleihau anghydraddoldebau (atal wedi'i dargedu), yn enwedig ar gyfer grwpiau a allai fod mewn perygl.
- Nodi effeithiau cadarnhaol ac annisgwyl penderfyniadau ac awgrymu ffyrdd o fynd i'r afael ag unrhyw broblemau (atal ar lefel system). Mae HIA hefyd yn helpu i ddod o hyd i fylchau a chyfleoedd.
- Gwella ffactorau amddiffynnol sy'n annog cynllunio a phenderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth a gwybodaeth.
- Helpu meysydd polisi gwahanol i ddeall sut y gall eu gwaith wella iechyd a llesiant, atal afiechyd a lleihau anghydraddoldebau.
- Cefnogi gwaith tîm, cydweithio ar draws sectorau, ymgynghori â chymunedau, a chynnwys pobl yn y broses gwneud penderfyniadau.
- Annog cynnwys pobl a fydd yn cael eu heffeithio gan y penderfyniadau neu sydd â diddordeb ynddynt.
- Bod yn offeryn ymarferol, hyblyg, a hawdd ei ddefnyddio i bawb sy'n rhan o bethau.
- Helpu i ystyried iechyd ac anghydraddoldebau ochr yn ochr â dyletswyddau neu asesiadau eraill, fel nad yw gwaith yn cael ei ailadrodd.

Mae deall effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol yn hanfodol er mwyn nodi ble y gallai penderfyniad greu manteision neu risgiau iechyd. Mae adnabod y llwybrau hyn gan ddefnyddio HIA yn cefnogi:

- Dadansoddiad mwy cynhwysfawr.
- Argymhellion gwell, sy'n seiliedig ar dystiolaeth.
- Cysoni nodau cynllunio ac iechyd y cyhoedd yn well.
- Lliniaru effeithiau negyddol anfwriadol yn gynnar.
- Hyrwyddo amgylcheddau sy'n meithrin lles hirdymor.

Drwy archwilio sut y gallai penderfyniadau ddylanwadu ar y penderfyniadau ehangach - a sut mae'r rhain yn datblygu'n effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol - mae HIA yn darparu dull strwythuredig o atal, gwella iechyd y boblogaeth a lleihau anghydraddoldebau.



Egwyddorion HIA

Mae HIA yn seiliedig ar wyth egwyddor a gwerth craidd (Ffigur 3). Dylai'r broses HIA hefyd fod yn ddiudedd ac yn annibynnol.

Ffigur 3: Egwyddorion a gwerthoedd HIA (European Centre for Health Policy, 1999)




Pryd i gynnal HIA?

Mae HIA wedi cael ei ddefnyddio'n llwyddiannus ac yn wirfoddol gan amrywiaeth o sefydliadau a sectorau yng Nghymru hyd yn hyn oherwydd y manteision y mae'n eu cynnig wrth ddatblygu cynigion ac wrth wneud penderfyniadau. (Drane et al., 2024). Dylid cynnal HIA pan ystyrir bod gan gynnig effaith bosibl, neu wirioneddol, ar iechyd a llesiant pobl ac anghydraddoldebau, neu ar unrhyw ffactorau sy'n pennu iechyd pobl yn y tymor byr i'r hirdymor.

Mae HIA yn broses y gellir ei defnyddio ar gyfer prosiectau ar raddfa fach, er enghraifft datblygiad cynllunio tir neu brosiect cymunedol, hyd at gynigion ar raddfa fawr fel cynlluniau a strategaethau newid hinsawdd neu brosiectau seilwaith. Dylai graddfa'r HIA fod yn gymesur ac ystyried anghenion megis tystiolaeth, cyfranogiad ac amserlenni.

Gellir cynnal HIA ar dri pwynt amser (Ffigur 4).

Ffigur 4: Pryd y gellir cynnal HIA



Gall HIAs ddarparu'r gwerth mwyaf pan gânt eu defnyddio'n rhagolygol wrth ddatblygu cynnig i lywio gwneud penderfyniadau. Dylid cychwyn y broses yn ddigon hwyr yn natblygiad cynnig er mwyn bod yn glir ynghylch ei natur a'i bwrpas, ond yn ddigon cynnar i allu dylanwadu'n effeithiol ar y broses gynllunio a gweithredu. Nod hyn yw sicrhau'r canlyniadau iechyd mwyaf cadarnhaol â phosibl a lleihau'r risg o waethygu anghydraddoldebau iechyd.

Noder: os ydych chi'n gorff cyhoeddus sy'n cynnal HIA o dan y Rheoliad HIA yng Nghymru, cyfeiriwch at *Reoliadau Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd (Cymru) 2025: Canllaw i gyrff cyhoeddus yng Nghymru (2026)*.

Mathau o HIA

Mae'r HIA yn gymesur â'r cyd-destun a graddfa gymhlethdod y cynnig sy'n cael ei asesu.

Mae dau fath gwahanol o HIA yn cael eu gweithredu yng Nghymru. Mae'n bosibl bod HIA rhwng y ddau fath, a'i fod yn defnyddio elfennau o'r ddau, a bennir gan natur y cynnig sy'n cael ei asesu (Ffigur 5):

1. HIA Cyflym ('safonol')


2. HIA Cynhwysfawr

Y gwahaniaeth rhwng **HIA Cyflym (Safonol)** a **HIA Cynhwysfawr** yn bennaf yw eu manylder, eu cwmpas, eu gofynion amser, a'u defnydd o adnoddau. I grynhoi, mae HIA Cyflym (Safonol) yn gyflymach ac yn llai dwys o ran adnoddau na HIA Cynhwysfawr ac mae'n canolbwyntio ar ddarparu mewnwelediadau amserol gyda chwmpas dadansoddi mwy cyfyng. Mae HIAs cynhwysfawr yn fwy manwl, yn cymryd mwy o amser ac yn ddwys o ran adnoddau gan ganiatáu ar gyfer dadansoddiad a chyfranogiad manwl.

	HIA Cyflym (Safonol)	HIA Cynhwysfawr
Amser ac adnoddau	• Wedi'i gwblhau mewn ychydig ddyddiau i ychydig wythnosau. • Angen llai o adnoddau, fel staff a chyllid. • Proses gyfrannol gryno, sy'n defnyddio llai o adnoddau, sydd fel arfer yn dibynnu ar ddata presennol, gwybodaeth arbenigol, a mewnbwn rhanddeiliaid.	• Gall gymryd sawl mis i dros flwyddyn i'w gwblhau. • Angen mwy o adnoddau, gan gynnwys mwy o gyfranogiad staff, cyllid ac arbenigedd technegol. • Proses drylwyr a all gynnwys casglu data newydd, dadansoddiad manwl, ac ymgysylltu helaeth â rhanddeiliaid.
Cwmpas	• Yn canolbwyntio ar nodi effeithiau allweddol posibl ar iechyd yn gyflym. • Yn darparu dadansoddiad lefel uchel, yn aml gydag archwiliad llai manwl o'r holl effeithiau posibl ar iechyd.	• Yn archwilio ystod eang o effeithiau iechyd yn fanwl. • Yn cynnwys archwiliad mwy manwl o lwybrau iechyd ac effeithiau posibl ar draws nifer o grwpiau poblogaeth.
Cyfranogiad y rhanddeiliaid	• Yn cynnwys llai o gyfranogiad helaeth gan rhanddeiliaid. • Gellir casglu tystiolaeth gan rhanddeiliaid drwy ymgynghoriadau presennol neu weithdy HIA cyfranogol gyda rhanddeiliaid allweddol.	• Yn caniatáu adborth a phroses casglu tystiolaeth fwy trylwyr gan gymunedau a sefydliadau yr effeithir arnynt.

Mae'n bwysig cofio pa bynnag fath a fabwysiadir, **argymhellir bod pob asesiad yn cynnwys cyfranogiad gweithredol gan randdeiliaid**. Mae rhagor o wybodaeth am y mathau o HIA, gan gynnwys sut i'w cynnal, ar gael yn [Atodiad 1: Mathau o HIA a'r broses, gan gynnwys adnoddau defnyddiol](#).

Ffigur 5: Mathau o HIA a gwneud y mwyaf o egwyddorion HIA a'u heffaith ar iechyd, lles a thegwch*



*Yn dibynnu ar yr amser a'r adnoddau sydd ar gael

Cymryd Rhan mewn HIA a Chyfranogi ynddo

Mae cymryd rhan mewn HIA a chyfranogi ynddo'n rhoi dinasyddion a chymunedau wrth wraidd prosesau gwneud penderfyniadau.

Mewn HIA, y rhanddeiliaid yw'r rhai:

- sy'n debygol o gael eu heffeithio neu a allai gael eu heffeithio gan gynnig. Gall hyn gynnwys, er enghraifft, grwpiau poblogaeth penodol, defnyddwyr gwasanaethau neu gymunedau.
- sy'n rhan o waith cynllunio cynnig a phenderfyniad.
- sy'n rhan o waith gweithredu cynnig.

Gall rhanddeiliaid gyfrannu at HIA mewn amrywiaeth o ffyrdd megis bod yn rhan o grŵp llywio/ymgyngori (lle bo'n berthnasol), cyfrannu tystiolaeth a/neu wybodaeth leol neu genedlaethol, helpu i nodi proses liniaru neu argymhellion ar gyfer gweithredu ac wrth fonitro neu adolygu HIA.

Argymhellir cyfranogiad fel elfen allweddol o ymarfer HIA yng Nghymru a gall gefnogi'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

Rolau, sgiliau a gwybodaeth mewn HIA

Argymhellir bod tîm o bobl yn cynnal HIAs. Yn aml, mae cydweithio yn elfen allweddol o unrhyw HIA ac mae'r broses yn elwa o ddull cydweithredol er mwyn gwneud y mwyaf o'i grym. Cynhelir HIAs sy'n effeithlon o ran adnoddau gan dimau bach (yn aml-ddisgyblaethol neu aml-sgiliau, yn aml) (Edmonds et al., 2019; Figures 6-7).

Mae rolau, sgiliau a gwybodaeth ddefnyddiol yn dibynnu ar y math o HIA sy'n cael ei gynnal.

Ffigur 6: Rolau yn y HIA



Ffigur 7: Gwybodaeth a sgiliau ar gyfer HIA (Edmonds, Parry-Williams and Green, 2019)



Cymhwysedd ac arbenigedd ar gyfer HIA


Mae llawer o bobl yn betrusgar i gynnal HIA oherwydd eu bod yn teimlo nad oes ganddynt y profiad, yr amser, y sgiliau, yr wybodaeth, yr hyder neu'r cymhwysedd angenrheidiol. Fodd bynnag, mae HIA wedi'i gynllunio i fod yn broses ymarferol a hygyrch y gall unrhyw un ei chynnal gyda'r canllaw cywir.

Gall ymarferwyr, swyddogion llywodraethu corfforaethol, comisiynwyr sy'n defnyddio sgiliau arferol yn rheolaidd yn eu rolau beunyddiol fel y rhai a nodir yn Ffigur 7, ac sy'n cynnal datblygiad proffesiynol parhaus a chymhwysedd yn rhan o'u harfer proffesiynol, gynnal neu arwain HIA am y tro cyntaf. Mae cymorth, adnoddau a chyngor llawn ar gael drwy gydol y broses er mwyn sicrhau bod unrhyw un sy'n ymgymryd â HIA yn teimlo'n hyderus ac wedi'i baratoi'n dda, hyd yn oed os mai dyma ei brofiad cyntaf.

C: Camau Arferion Gorau yn y broses HIA wirfoddol


Mae'r broses HIA fel arfer yn cynnwys sawl prif gam, sy'n cael eu cydnabod yn rhyngwladol mewn ymarfer HIA (Ffigur 8). Er y gallai rhai feddwl amdani'n broses linellol, mae HIAs yn brosesau ailadroddol. Mae'n sensitif o ran tystiolaeth, amserlenni ac amgylchiadau. Er enghraifft, dylid cadw cwrdd HIA dan adolygiad gan y gallai gwybodaeth newydd ddod i'r amlwg yn ystod camau diweddarach y broses.

Ffigur 8: Pum cam HIA*



***Sicrwydd Ansawdd.** Dylid cynnwys hyn yn y cam adrodd, neu ar ôl cyhoeddi. Mae'n galluogi cynnal adolygiad o'r HIA er mwyn sicrhau hyder yng nghynnwys, canfyddiadau a chadernid proses yr HIA.

Proses ar gyfer cynnal HIA



Cam 1: Sgrinio – Penderfynu a ddylid cynnal HIA

Prif bwrpas: Penderfynu a allai'r cynnig dan sylw gael effaith ar, neu oblygiadau o ran, iechyd, llesiant neu degwch pobl neu unrhyw ffactorau sy'n pennu iechyd pobl.

Mae sgrinio yn edrych yn gyntaf ar effeithiau posibl cynnig ar iechyd, llesiant a chydaddoldeb o safbwynt y penderfyniadau ehangach, a'r grwpiau poblogaeth hynny a allai gael eu heffeithio. Dyma'r cyfle cyntaf i ddeall ble mae anghydaddoldebau rhwng grwpiau poblogaeth ac ystyried sut y bydd y rhain yn cael eu heffeithio. Mae dealltwriaeth o'r cyd-destun, er enghraifft y boblogaeth, yn hanfodol.

Gan ddibynnu ar yr amgylchiadau, bydd y cam sgrinio yn gweithredu'n gymorth gwneud penderfyniadau er mwyn penderfynu a oes angen HIA mwy manwl, neu a oes angen asesiad pellach.

Gall sgrinio a gynhelir yn ystod cyfnod datblygu cynnig hefyd ddarparu tystiolaeth i ddangos i'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau bod iechyd, llesiant ac anghydaddoldebau wedi cael eu hystyried, neu heb gael eu hystyried.

Os cafodd HIA ei gytuno eisoes, yna nid oes angen y cam sgrinio, a gall yr HIA symud ymlaen i'r cam cwmpasu.

Sut?

Mae gweithdy neu gyfarfod sgrinio yn cael ei gwblhau gan grŵp bach o randdeiliaid allweddol. Gall hyn gynnwys, er enghraifft, gynrychiolwyr awdurdodau lleol, gweithwyr proffesiynol iechyd y cyhoedd a chynrychiolwyr o'r sectorau cymunedol a gwirfoddol. **Ni ddylai'r cam hwn gael ei gyflawni gan un person.**

Fel canllaw, dylai gweithdai neu gyfarfodydd sgrinio cyfranogol fod tua dwy i dair awr o hyd, gan ddibynnu ar natur a graddfa'r cynnig. Byddwch yn ymwybodol o nifer y bobl sy'n mynychu'r gweithdy er mwyn sicrhau bod cyfle gan bawb sy'n mynychu i gymryd rhan yn y trafodaethau. Os yw'r grŵp yn cynnwys dros 15 o randdeiliaid, ystyriwch ddefnyddio grwpiau trafod yn ystod y trafodaethau. Dylid penodi hwylusydd ac ysgrifennydd/ysgrifenyddion cyn y gweithdy, pan fo angen, a dylid cytuno pwy fydd yn gyfrifol am ysgrifennu'r nodiadau ar ôl y gweithdy. Mae enghraifft o agenda ***gweithdy HIA*** yn [Atodiad 2](#).

Bydd ***taflen gofnodi Sgrinio HIA*** eich helpu i gofnodi'r wybodaeth a gafodd ei thrafod yn y cyfarfod sgrinio, gan ddarparu cofnod o'r penderfyniad ynghylch a ddylid cynnal HIA llawn ai peidio ([Atodiad 3](#)).

Gellir llywio trafodaethau yn y cyfarfod gan yr adnodd ***Grwpiau Poblogaeth a Phenderfyniadau Ehangach Iechyd a Llesiant*** ([Atodiad 4](#)). Mae'r adnodd hwn yn hanfodol i nodi'r grwpiau poblogaeth a'r penderfyniadau ehangach a allai gael eu heffeithio neu y gwyddys eu bod wedi cael eu heffeithio gan y cynnig dan sylw.

Yn dilyn hyn, dylid dosbarthu'r nodiadau wedi'u cofnodi ar **daflen gofnodi Sgrinio HIA** ([Atodiad 3](#)) i fynychwyr y gweithdy i'w gwirio a'u cymeradwyo, ac yna gwneud unrhyw newidiadau y gofynnwyd amdanynt.

Awgrymiadau allweddol:

- **Sicrhau bod disgrifiad clir o'r cynnig, y rhesymeg, y nodau a'r amcanion yn cael eu rhannu gyda rhanddeiliaid allweddol cyn y gweithdy.** Gall proffil poblogaeth sylfaenol presennol yr ardal leol hefyd fod yn ddefnyddiol er mwyn cynorthwyo trafodaethau (Gweler '[Cam 3 Arfarnu tystiolaeth](#)' am ganllawiau ynghylch creu proffil poblogaeth).
- Dosbarthwch yradnodd **Grwpiau Poblogaeth a Phenderfynyddion Ehangach Iechyd a Llesiant** ([Atodiad 4](#)) i fynychwyr y gweithdy cyn y gweithdy.
- Rhowch drosolwg o ddiffiniad HIA a'r hyn y mae disgwyl a fydd yn digwydd yn y cam hwn gan nad yw pob cyfranogwr o bosibl yn gyfarwydd â'r broses, neu dosbarthwch daflen trosolwg o HIA neu Gwestiynau Cyffredin (Wales Health Impact Assessment Support Unit, 2024).

Mae'n bwysig nodi na fydd ymarfer sgrinio bob amser yn cael ei gynnal. Byddai hyn yn golygu eich bod yn dechrau'r broses HIA yng Ngham 2: Cwmpasu. Gallai hyn fod yn wir yn y senarios canlynol:

- gellir ei ystyried yn arfer gorau gan lunwyr polisi a chynllunwyr lleol.
- os oes angen HIA gan sefydliad ariannu neu mewn amgylchiadau penodol er mwyn gwneud penderfyniadau.

Fodd bynnag, gall sgrinio fod yn gam defnyddiol i'w gymryd i helpu i ddechrau'r drafodaeth ar nodi'r penderfynyddion ehangach a'r grwpiau poblogaeth yr effeithir arnynt gan y cynnig.

Mae enghraifft o **ymarfer Sgrinio** cynhwysfawr yn [Atodiad 5](#).

Cam 2: Cwmpasu – Sefydlu math a chwmpas yr HIA

Prif bwrpas: Sefydlu sut y cynhelir yr HIA gan gynnwys nodi proses lywodraethu a logisteg yr HIA ac egluro rolau a chyfrifoldebau allweddol ochr yn ochr â chytuno ar gynllun gweithredu ar gyfer yr HIA.

Cydnabyddir bod cwmpasu yn gam allweddol i sicrhau bod HIA o ansawdd yn cael ei gyflwyno. Y prif nod yw pennu sut y cynhelir yr HIA a darparu eglurder a thryloywder ynghylch ei ganolbwynt - yn benodol, y penderfynyddion ehangach, y grwpiau poblogaeth yr effeithir arnynt, a'r dulliau i'w defnyddio. Mae'n bwysig ailystyried cwmpas a manylder yr HIA a'u diwygio (yn ôl yr angen) wrth iddo fynd rhagddo er mwyn sicrhau bod yr HIA yn parhau i gyflawni'r nodau wedi'u nodi. Er enghraifft, wrth i dystiolaeth gael ei chasglu drwy gydol y broses HIA, gellir nodi penderfynyddion a grwpiau poblogaeth newydd diolch i dystiolaeth newydd na chafodd ei chydnabod drwy'r cam sgrinio, neu efallai nad oes dystiolaeth o effaith fel y gellir dod â'r drafodaeth ar y meysydd pwnc hynny i ben.

Mae cwmpasu'n cynnwys ystyried:

- **Amcanion a chanolbwynt** – nod ac amcanion ar gyfer yr HIA, y penderfynyddion i ganolbwyntio arnynt, elfennau'r cynnig i ganolbwyntio arnynt, ffiniau daearyddol.
- **Proses** – y math o HIA, y raddfa a'r cymesuredd, offer a fframweithiau asesu i'w defnyddio, dadansoddiad rhanddeiliaid ar gyfer ymgysylltu a nodi'r broses casglu dystiolaeth, adrodd, adolygu ansawdd.
- **Rheoli a Llywodraethu Prosiectau** – amserlenni, grŵp llywio, a fydd yr HIA yn cael ei gwblhau gan dîm sydd angen HIA, neu a fydd yr HIA yn cael ei gomisiynu i gcontractwr preifat allanol i gwblhau'r gwaith, adnoddau sydd eu hangen, rolau a chyfrifoldebau.

Sut?

Nid yw sefydlu Grŵp Llywio yn hanfodol ar gyfer HIA cyflym ond gall ddarparu ffordd effeithiol o rannu perchnogaeth a chyfrifoldeb dros y broses a galluogi dosbarthu tasgau. Bydd y maint yn dibynnu ar hyd a chymhlethdod y prosiect, gyda nifer delfrydol rhwng pedwar a 12 o bobl. Dylai cynrychiolwyr o grwpiau neu sefydliadau rhanddeiliaid allweddol fod yn rhan o'r broses gan fod hyn yn helpu i hyrwyddo cyfranogiad ehangach yn y broses, a pherchnogaeth ohoni.

Mae **templed Cwmpasu HIA** ([Atodiad 6](#)) ar gael i arwain sgysiau a gwneud cofnod o benderfyniadau. Mae'n bwysig bod rolau a chyfrifoldebau hefyd yn cael eu neilltuo yn y cam hwn (Tabl 1).

Tabl 1: Rolau mewn HIA

Rôl	Diffiniad
Eiriolwr	Yn eirioli dros HiAP, yn hyrwyddo defnyddio HIA, yn darparu arweinyddiaeth ac yn nodi cyfleoedd i ddefnyddio HIA.
Awdurdodwr	Yn comisiynu a/neu'n dyrannu adnoddau i HIA. Yn berchen ac yn atebol yn gyffredinol am HIAs y maent yn eu hawdurdodi neu'n eu comisiynu (llywodraethu).
Cyfrannwr - Grŵp Llywio	Yn cyfrannu at HIA gyda set sgiliau neu wybodaeth benodol fel aelod o'r tîm sy'n ymgymryd â'r HIA neu fel aelod o'r grŵp llywio.
Cyfrannwr Rhanddeiliaid	Yn cymryd rhan mewn HIA fel rhanddeiliad allweddol, gan gyfrannu mewnwelediad ansoddol wedi'i dynnu o'u gwybodaeth a'u profiadau neu'n cyfeirio at ffynonellau ychwanegol o dystiolaeth berthnasol. Gallent fod yn arbenigwyr pwnc, aelodau o'r gymuned, a chynrychiolwyr llyeg. Mae rhanddeiliaid sy'n cyfrannu yn cael eu nodi yn ystod y dadansoddiad rhanddeiliaid yn rhan o'r broses gwmpasu.
Adolygydd	Yn cynnal adolygiadau sicrhau ansawdd, monitro a gwerthuso HIAs. Rhoi adborth clir i gomisiynwyr a'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau.
Ymarferydd HIA arweiniol (canolradd): HIAs Cyflym	Yn arwain gwaith cynllunio, dylunio a chyflawni HIAs sy'n canolbwyntio ar brosiect, polisi neu faes gwasanaeth arwahanol . Yn sicrhau bod y broses HIA yn dilyn canllawiau a meincnodau ar gyfer HIA o ansawdd uchel.
Ymarferydd HIA Arweiniol (Uwch) HIAs cynhwysfawr	Arwain y gwaith o gynllunio, dylunio, darparu a gwerthuso HIAs cyfranogol, cymhleth, cynhennus a/ neu rai cynhwysfawr ar raddfa fawr. Yn sicrhau bod y broses HIA yn dilyn canllawiau a meincnodau ar gyfer HIAs o ansawdd uchel.

Awgrymiadau allweddol:

- Ystyriwch hyn fel **y cam cynllunio allweddol**. Bydd y cam hwn yn helpu i egluro pwrpas a chymesuredd yr HIA a sut y bydd yn cael ei gynnal a pha benderfyniaddion a grwpiau y canolbwyntir arnynt.
- Gnewch yn siŵr bod gennych y bobl gywir yn rhan o bethau er mwyn gwneud yr HIA yn llwyddiant.
- Byddwch yn realistig a chynlluniwch ar gyfer yr hyn y gallwch ei chyflawni o fewn yr amserlen ac yn unol â'r adnoddau sydd ar gael i chi.

Cam 3: Arfarnu ac asesu tystiolaeth

Prif bwrpas: Casglu tystiolaeth (gan gynnwys gwybodaeth gyd-destunol leol, ranbarthol neu genedlaethol, data, llenyddiaeth gyhoeddedig wedi'i hadolygu gan gymheiriaid a llenyddiaeth lwyd) ynghylch natur, maint, tebygolrwydd a dosbarthiad posibl effeithiau'r cynnig ar iechyd, llesiant a thegwch.

Dyma brif gam y broses HIA lle mae'r dystiolaeth yn cael ei chasglu a'i gwerthuso i nodi'r effeithiau posibl neu wirioneddol ar iechyd. Drwy gasglu tystiolaeth bresennol a newydd, mae'r cam hwn yn rhoi'r cyfle i nodi ffyrdd posibl o wneud y mwyaf o'r manteision iechyd, llesiant a thegwch a lleihau a lliniaru'r risgiau neu'r canlyniadau negyddol anfwriadol, yn enwedig ar gyfer grwpiau poblogaeth gwahanol mewn ffordd amserol ac effeithiol o ran adnoddau. Yna bydd casgliadau'n cael eu llunio ochr yn ochr â gofynion ar gyfer ystyriaethau, camau gweithredu neu argymhellion pellach, pa un bynnag sy'n briodol at ddiben yr HIA ac ar gyfer pwy y bwriedir yr adroddiad (y sawl sy'n gwneud penderfyniadau).

Cesglir tystiolaeth er mwyn rhoi gwybodaeth am:

- Asesiad o'r effeithiau.
- Proffil cymuned/poblogaeth.
- Dealltwriaeth o'r cyd-destun polisi sy'n gysylltiedig â'r cynnig.


Mae'r cam hwn yn gymesur â'r math o HIA sy'n cael ei gynnal. Gallai HIA Cyflym (Safonol) ddibynnu'n bennaf ar ddata a gwybodaeth sy'n bodoli eisoes, ochr yn ochr ag ymgynghoriad neu weithdy ansoddol gyda rhanddeiliaid. Bydd HIA cynhwysfawr yn dibynnu ar ystod fwy cymhleth o ffynonellau tystiolaeth.

Pa dystiolaeth y gellir ei defnyddio mewn HIA?

Gall HIA ddefnyddio mathau **ansoddol a meintiol** o dystiolaeth, sy'n gymesur â'r math o HIA sy'n cael ei gynnal. Gellir casglu tystiolaeth drwy gyfuniad o broses casglu data sylfaenol (gwybodaeth newydd), a phroses casglu data eilaidd gan ddefnyddio ffynonellau tystiolaeth presennol (Ffigur 10).

Rhaid i randdeiliaid allweddol gymryd rhan yn yr HIA. Gall hyn ddarparu gwybodaeth a thystiolaeth gyd-destunol leol neu genedlaethol bwysig.

Ffigur 10: Enghraifft o ffynonellau tystiolaeth



Sut?

Gan ddefnyddio'r adnodd **Grwpiau Poblogaeth a Phenderfynyddion Ehangach Iechyd a Llesiant** ([Atodiad 4](#)) fel canllaw a gan ddefnyddio'r hyn rydych chi wedi'i ganfod yn y cam sgrinio fel man cychwyn, dylai'r cam hwn gael ei gwblhau gan grŵp o unigolion (y tîm sy'n cynnal yr HIA), nid gan un unigolyn. Gellir rhannu'r gwaith o gasglu tystiolaeth rhwng aelodau'r tîm, sydd wedyn yn dod ynghyd i asesu'r effeithiau, casglu a dadansoddi'r dystiolaeth.

1. Gwybodaeth a phrofiad rhanddeiliaid cyfranogol

Mae gwybodaeth a phrofiad rhanddeiliaid yn dystiolaeth ansoddol sy'n hanfodol i HIA ac asesiadau effaith eraill gan y gall ddarparu gwybodaeth leol neu genedlaethol.

Mae gwybodaeth a phrofiad rhanddeiliaid yn ffynhonnell werthfawr o dystiolaeth, gan roi cipolwg ar faterion lleol neu genedlaethol. Mae'n ein helpu i ddeall profiadau pobl yr effeithir arnynt gan gynnig a'u gwybodaeth benodol am y pwnc, yr ardal neu'r gymuned.

Yn aml, mae gwybodaeth o'r fath yn tynnu sylw at effeithiau cadarnhaol neu negyddol annisgwyl na fyddai'r rhai sy'n arwain y cynnig o bosibl yn eu nodi, yn enwedig os nad ydynt o'r gymuned leol.

Methodolegau enghreifftiol:

- Gweithdai HIA cyfranogol - yn dod â llawer o randdeiliaid ynghyd i drafod y cynnig, trafod tystiolaeth o effaith, a chreu datrysiadau posibl. Mae enghraifft o **agenda gweithdy HIA** yn [Atodiad 2](#) a gellir dod o hyd i dempled cofnodi gweithdy HIA yn Atodiad 7.
- Ymatebion o ymgynghoriad/ymgynghoriadau presennol neu barhaus sy'n ymwneud â'r penderfyniad (os yw ran o'r ffordd drwy'r broses gwneud penderfyniadau strategol), data ac adborth o weithdai a grwpiau ffocws sydd wedi'u cynnal hyd yma ar y penderfyniad.
- Grwpiau ffocws penodol ar gyfer HIA - casglu gwybodaeth fanwl gan grŵp bach o bobl. Mae angen rhywun i arwain y drafodaeth grŵp.
- Cyfweiliadau unigol - casglu gwybodaeth fanwl gan un neu ddau o bobl ar y tro.
- Holiaduron/arolygon - gall fod yn ddefnyddiol i gasglu gwybodaeth feintiol ac ansoddol gan ystod eang o randdeiliaid.

Nid oes angen cymeradwyaeth foesegol yn fater o drefn ar gyfer cynnwys rhanddeiliaid na'r gymuned mewn HIA. Fodd bynnag, mae cydsyniad ar sail gwybodaeth gan randdeiliaid yn hanfodol a rhaid egluro pwrpas casglu tystiolaeth.

2. Data poblogaeth leol a phroffiliau poblogaeth

Dylai proffil poblogaeth fod yn berthnasol i'r cynnig a'r cyd-destun – mae dehongli yn hanfodol ar gyfer proffil HIA addysgiadol.

Gall proffiliau yn aml gynnwys:

- Priodoleddau cyffredinol y boblogaeth (gan gynnwys maint, dwysedd, oedran, rhyw, incwm a chyflogaeth, statws economaidd-gymdeithasol ac ati).
- Statws iechyd, yn enwedig y grwpiau poblogaeth sydd eisoes wedi'u nodi'n rhai agored i niwed ac sy'n debygol o elwa o neu gael eu niweidio gan y cynnig/prosiect/polisi.
- Dangosyddion ansawdd bywyd.
- Gwybodaeth ychwanegol sy'n berthnasol i'r pwnc sy'n cael ei asesu. Gallai hyn gynnwys data ar dai, trafniadaeth, ffactorau amgylcheddol a brofir, asedau cymunedol, mynediad at/defnyddio gwasanaethau.

Awgrymiadau ar gyfer ffynonellau data meintiol (nid yw'n gynhwysfawr):

- StatsCymru.
- Arolwg Cenedlaethol Cymru.
- Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru.
- Swyddfa Ystadegau Gwladol, gan gynnwys data Cyfrifiad.
- Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC).

- Ystadegau Cymru neu ystadegau llywodraeth eraill.
- Swyddfa ar gyfer Gwella Iechyd a Gwahaniaethau – Ymchwil ac ystadegau.
- Data awdurdodau lleol.
- Data'r Bwrdd Iechyd Lleol.
- Cyfoeth Naturiol Cymru.
- Data a gesglir yn rheolaidd gan eich sefydliad.
- Adroddiadau sefydliadol sy'n cynnwys data meintiol.
- Timau Iechyd y Cyhoedd Lleol mewn Byrddau Iechyd.
- Sefydliad Iechyd y Byd.

Gellir defnyddio dulliau dadansoddi meintiol hefyd i nodi ac yna feintoli a rhagweld effeithiau ar iechyd. Gall y rhain fod yn bwysig i asesu amrywiaeth o faterion gan gynnwys effeithiau amgylcheddol a pholisi ar iechyd. Er enghraifft, ansawdd aer. Mae rhagor o wybodaeth am hyn yn [Atodiad 8](#).

3. Adolygiad llenyddiaeth/tystiolaeth

Gallai ffynonellau llenyddiaeth sy'n bodoli eisoes gynnwys:

- Llenyddiaeth academiaidd a llwyd.
- Adolygiadau systematig.
- Adroddiadau HIA presennol a gafodd eu cynnal ar yr un pwnc/sector.
- Data technegol ac adroddiadau.
- Adroddiadau gan y Llywodraeth neu sefydliadau sector.
- Briffiau.
- Menter Adroddiad Statws Tegwch Iechyd Cymru (WHESRI).
- Ar dafod leferydd – wedi'i gyfeirio gan randdeiliaid allweddol.

Ar gyfer HIA mwy cynhwysfawr, dylid datblygu protocol adolygu llenyddiaeth gyda thermiau chwilio allweddol a meini prawf cynnwys/eithrio er mwyn helpu i arwain y broses. Y meini prawf i'w hystyried yw blwyddyn gyhoeddi, iaith y cyhoeddwyd ynddi, a blaenoriaethu dystiolaeth, er enghraifft a ddylid canolbwyntio ar dystiolaeth o'r Deyrnas Unedig.

Ar ôl darllen yr holl dystiolaeth wedi'i nodi ac asesu'r addasrwydd a'r ansawdd, dylid defnyddio'r holl wybodaeth berthnasol i lenwi tabl echdynnu a ddylai gynnwys y canlynol:

- Gwybodaeth am y ffynhonnell – teitl, awdur/awduron, dyddiad cyhoeddi, math o dystiolaeth.
- Grwpiau poblogaeth allweddol wedi'u nodi.
- Canfyddiadau allweddol – effeithiau cadarnhaol/negyddol ar draws y penderfynyddion ehangach iechyd, gan gynnwys dystiolaeth o effeithiau.

Rhoi'r dystiolaeth at ei gilydd

Ar ôl casglu a chofnodi'r dystiolaeth, mae angen ei dehongli a'i defnyddio i lywio eich dadansoddiad HIA. Os defnyddir mwy nag un ffynhonnell dystiolaeth, mae angen ei thriongli a'i dehongli.

Gall fod yn broses syml o roi'r dystiolaeth mewn themâu a'i thrafod, hyd at lunio tabl effeithiau (mewn HIA mwy cynhwysfawr).

Yn aml mewn HIAs cynhwysfawr, gellir categorio'r effeithiau wedi'u nodi fel a ganlyn:

- **Maint/arwyddocâd effeithiau** – lleiaf, cymedrol, mawr.
- **Tebygolrwydd/sicrwydd effeithiau** – posibl, tebygol, wedi'i gadarnhau.
- **Hyd yr effaith** – tymor byr, tymor canolig, hirdymor.
- Os oes angen, yna gellir eu rhannu ymhellach yn effeithiau uniongyrchol/anuniongyrchol.

Mae tabl effeithiau'n caniatáu i naratif clir gael ei greu ar gyfer allbwn yr HIA (er enghraifft, adroddiad neu ffeithlun), a gall ddarparu canllaw ar gyfer blaenoriaethu'r effeithiau i fynd i'r afael â nhw, a gellir datblygu unrhyw argymhellion yn dilyn hynny.

Awgrymiadau allweddol:

- **Cadwch mewn cof faint o wybodaeth, tystiolaeth a data sydd eu hangen ar gyfer maint yr HIA.** Dylai manylder y dystiolaeth a gesglir fod yn gymesur ac yn briodol i ffurf yr HIA a'r cwmpas, y raddfa a'r manylder.
- Dilynwch y broses neu brotocol clir er mwyn sicrhau bod y broses yn systematig.
- Sicrhewch fod yr wybodaeth a gesglir yn ddilys, yn ddibynadwy ac yn gredadwy. Bydd sgiliau mewn gwerthuso tystiolaeth ymchwil ansoddol a meintiol yn feirniadol yn werthfawr.
- Meddyliwch am y dystiolaeth a gesglir mewn perthynas â'r cyd-destun dan sylw. Dyma lle bydd rhanddeiliaid allweddol, a chymunedau lleol, yn bwysig.
- Cadwch gofnod o sut rydych chi wedi casglu tystiolaeth (dulliau a gafodd eu defnyddio), a ffynonellau'r dystiolaeth a gafodd eu defnyddio. Cofiwch gynnwys dolenni gwefannau i'r dystiolaeth yn eich tabl o effeithiau os yw'n bosibl, fel y gallwch ailedrych ar y dystiolaeth mewn modd di-drafferth yn ddiweddarach os oes angen

Cam 4: Adrodd ac argymhellion

Prif bwrpas: Cyflwyno canfyddiadau ac argymhellion neu gamau gweithredu'r HIA a dogfennu'r broses wedi'i chynnal drwy gydol yr HIA.

Ar ôl i'r dadansoddiad gael ei gwblhau, mae angen datblygu set o argymhellion neu gamau gweithredu awgrymedig, yn seiliedig ar yr effeithiau wedi'u nodi. Dylai'r argymhellion a'r camau gweithredu geisio gwneud y mwyaf o unrhyw fuddion a chyfleoedd iechyd a llesiant posibl a lliniaru canlyniadau negyddol neu anfwriadol posibl (Ffigur 11). Gallant roi cyfle i 'lenwi' unrhyw fylchau wedi'u nodi yn y cynnig ac ailystyried unrhyw anghydraddoldebau iechyd (neu anghydraddoldebau eraill) a allai gael eu hachosi ganddo.

Ffigur 11: Argymhellion

Mae angen i argymhellion fod:

- ✓ **Yn glir ac yn gryno**
- ✓ **Yn realistig**
- ✓ **Yn gyraeddadwy**
- ✓ **Yn hawdd i'w rheoli o ran nifer**
- ✓ **Yn dddiduedd**
- ✓ **Yn adlewyrchu'r holl dystiolaeth a barn cynrychiolwyr**
- ✓ **Wedi'u cytuno trwy gonsensws**
- ✓ **Yn gynaliadwy.**

Mae'n hanfodol ar gyfer hygyrdd ac effeithiolrwydd HIA bod y broses yn cael ei gweithredu mewn ffordd gyson a chadarn ac i safon foddhaol. Felly mae'r adroddiad yn cyfleu'r broses wedi'i chymryd yn ogystal â chanfyddiadau ac argymhellion yr HIA. Mae angen i'r adroddiad ddangos bod yr HIA wedi'i gynnal mewn ffordd sy'n dilyn canllawiau cydnabyddedig, pwy oedd yn rhan (gwybodaeth wedi'i gwneud yn ddienw yn ôl yr angen) a bod gwerthoedd ac egwyddorion HIA (fel y nodir yn Rhan B) yn sail iddo a'i fod wedi'i lywio ganddynt, waeth beth fo'r math o HIA.

Sut?

Dylid coladu a chyflwyno'r wybodaeth a gesglir yn y cam asesu mewn ffurf sy'n hygyrch i'r gynulleidfa darged. Dylid cyhoeddi allbwn yr HIA mewn fformat hygyrch mewn lle hygyrch sydd ar gael i'r cyhoedd, neu ddarparu rhesymau dros beidio â gwneud hynny. Dylai hefyd fod ar gael i'r rhai sy'n gofyn amdano. Mae'r allbwn yn gymesur â graddfa a chwmpas yr HIA.

Mae yna lawer o fformatau allbwn posibl yn amrywio o restr syml, ffeithlun, tabl o ganfyddiadau'r gweithdy neu ddull sgrinio wedi'i gwblhau, i adroddiad mwy cynhwysfawr gyda Chrynodeb Gweithredol neu Annhechnegol. Rhaid i fformat ac arddull yr allbwn ystyried y gynulleidfa darged/cynulleidfaoedd targed a bod yn addas i'r diben o ran hyd, iaith a defnydd o derminoleg.

Os yw adroddiad HIA cynhwysfawr, technegol, er enghraifft, wedi'i gwblhau sy'n cynnwys cannoedd o dudalennau ac atodiadau, yna dylid darparu Crynodeb Gweithredol neu Annhechnegol a rhestr o dermau mewn fformat hawdd ei ddeall. Dylid dosbarthu'r allbwn drafft i adolygwyr a/neu gyfranogwyr y cytunwyd arnynt er mwyn cynnwys sylwadau, ychwanegiadau a golygiadau a chyrraedd consensws y cytunwyd arno. Yna dylid dosbarthu'r allbwn terfynol i'r prif rai sy'n gwneud penderfyniadau ac unigolion a sefydliadau eraill y cytunwyd arnynt.

Awgrymiadau allweddol:

- Peidiwch â'i wneud yn rhy hir – ystyriwch eich cynulleidfa a faint o dystiolaeth a gyflwynir a sut mae'n cael ei chyflwyno.
- Esboniwch yn glir yr effeithiau y mae'r cynnig yn eu cael ar iechyd a llesiant a thegwch. Canolbwyntiwch ar yr effeithiau hynny sydd fwyaf tebygol a phwysig o ran effaith.
- Meddyliwch am arddull yr adroddiad a'r gynulleidfa – er enghraifft paratowch adroddiad crynodeb byr a/neu ffeithlun er mwyn cyd-fynd ag adroddiad technegol/ adroddiad gwybodaeth ategol mwy manwl a all gynnwys manylion ychwanegol.
- Cofiwch gynnwys cydnabyddiaeth o gyfraniad y rhanddeiliaid dan sylw yn yr adroddiad.
- Cyhoeddwch yr allbwn (adroddiad yn aml) fel ei fod yn hygyrch, yn unol â gwerthoedd ac egwyddorion HIA, yn benodol didwylledd a thryloywder. Mae hyn yn cynnwys ei gyhoeddi ar-lein.

Cam 5: Adolygu a Myfyrio gan Gynnwys Monitro a Gwerthuso (dewisol)

Prif bwrpas: Gwerthuso sut y cafodd yr HIA ei ddefnyddio, pa mor ddefnyddiol ydyw a'i effaith ar ei gynulleidfa darged/cynulleidfaoedd targed ac a gafodd ddylanwad ar wneud penderfyniadau a datblygiadau. Bydd hyn yn helpu i asesu pa mor effeithiol y mae'r broses HIA wedi bod o ran dylanwadu ar benderfyniadau ac a oes angen i chi wneud unrhyw beth gwahanol yn y dyfodol.e.

Sut?

Mae dwy ran i'r cam hwn o'r broses; y gyntaf yw i'r rhai sy'n cynnal yr HIA fyfyrir ar yr HIA ac unrhyw ddysgu (os ydynt yn dewis gwneud hynny). Gall hyn ychwanegu at y broses, nodi unrhyw effaith hyd yn hyn a thynnu sylw at unrhyw wersi i'w dysgu ar gyfer HIAs yn y dyfodol.

Yr elfen arall yw asesu 'pa mor ddefnyddiol' yw'r HIA i'r gynulleidfa darged ac a ddylanwadodd ar y broses gwneud penderfyniadau a'r camau a gafodd eu cymryd. Un ffordd o asesu hyn yw olrhain sut y cafodd yr HIA ei ddefnyddio a gan bwy drwy fonitro cyfathrebiadau, ymatebion, ceisiadau am wybodaeth neu gyflwyniadau ac ymatebion.

Gan mai nod HIA yw llywio gwneud penderfyniadau, efallai yr hoffai sefydliadau ddatblygu eu ffurflenni a'u systemau monitro eu hunain er mwyn sicrhau bod HIAs yn cael eu hadolygu ar ôl i benderfyniadau gael eu gwneud. Gall adrodd hefyd roi cyfle i fyfyrir ar yr HIA, yr amser a'r adnoddau a gafodd eu defnyddio, beth weithiodd yn dda, a sut y cafodd anawsterau eu goresgyn. Mae dogfennau o'r math hwn yn ffynhonnell ddysgu gyfoethog, gan dynnu sylw at unrhyw effeithiau cadarnhaol o'r gwaith, a gellir eu rhannu ar gyfer datblygiad pobl ac arferion yn y dyfodol.

Awgrymiadau allweddol:

- Cofiwch gynnwys cynlluniau ar gyfer monitro yn yr adroddiad HIA (os yw'n hysbys), ac fel argymhelliad lle bo'n briodol. Manylwch pa elfennau o'r HIA fydd yn cael eu monitro (penderfyniadau iechyd, a/neu grŵp(iau) poblogaeth a/neu ganlyniadau neu benderfyniadau).
- Meddyliwch am ffyrdd o asesu effaith yr HIA (pa mor ddefnyddiol ydyw i'r gynulleidfa darged) neu sut y cafodd yr HIA ei gynnal a pha wybodaeth y mae gennych fynediad ati - er enghraifft monitro cyfathrebiadau ac/neu ymgysylltiad â gwefannau lle mae adroddiad HIA yn cael ei gyhoeddi/hyrwyddo (gwefannau/cyfryngau cymdeithasol).

Sicrhau Ansawdd

Mae sicrhau ansawdd/adolygiad beirniadol o adroddiad HIA yn bwysig er mwyn galluogi ymddiriedaeth a hyder yn y broses HIA a gafodd ei chynnal ac yn y canfyddiadau. Mae'r egwyddorion sy'n sail i fethodoleg HIA yn hanfodol i uniondeb ymarfer HIA a phroses a threfn lywodraethu HIA.

Bydd HIAs o ansawdd gwael yn effeithio ar hyder y comisiynwyr, y rhanddeiliaid dan sylw, a'r poblogaethau yr effeithir arnynt ac o bosibl yn arwain at Adolygiad Barnwrol ar gyfer cyrff cyhoeddus, os cânt eu herio. Bydd llai o hyder yn arwain at lai o gyfle i ddylanwadu ar benderfyniadau a fydd yn effeithio ar ganlyniadau iechyd a llesiant gwell. Mae yno ychydig o amgylchiadau lle argymhellir cynnal proses sicrwydd ansawdd:

- Prosesau llywodraethu ac adolygu mewnol y sefydliad cyn cyhoeddi.
- Gan y sawl sy'n gwneud penderfyniadau, er enghraifft swyddogion cynllunio/llunwyr polisi, y mae angen iddynt fod yn hyderus yn y canfyddiadau er mwyn llywio'u hargymhellion ar dderbyn adroddiad HIA.
- Comisiynwyr HIA y mae'n rhaid iddynt wirio bod yr HIA wedi bodloni'r safonau gofynnol a rhoi hyder iddynt yn yr argymhellion neu'r camau gweithredu.
- Ymarferwyr HIA sy'n ceisio cynnal adolygiad gan gymheiriaid o HIA.
- Aelodau'r gymuned sy'n ceisio asesiad annibynnol o ganfyddiadau a dulliau HIA.
- Addysgwyr sydd angen meini prawf er mwyn seilio casgliadau am asesiadau HIA arnynt.

Mae canllawiau ar gael i gefnogi ymgymryd â phroses sicrhau ansawdd, a gellir eu haddasu i fod yn gymesur â'r amgylchiadau, y teipoleg, a ffurf yr HIA. (Green et al., 2017). Gall Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru (UGAEIC) hefyd ddarparu hyfforddiant a chynghor ar sicrhau ansawdd.

Geirfa

Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol	Offeryn a ddefnyddir i asesu effeithiau sylweddol prosiect neu gynnig datblygu ar yr amgylchedd.
Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb	Offeryn sy'n helpu i sicrhau bod penderfyniadau, arferion a pholisïau mewn sefydliadau yn deg ac nad ydynt yn gwahaniaethu yn erbyn unrhyw grŵp gwarchodedig.
Llenyddiaeth lwyd	Llenyddiaeth a ysgrifennir y tu hwnt i systemau cyhoeddi masnachol neu'r byd academiaidd.
Asesiad o'r Effaith ar Iechyd	Cyfuniad o weithdrefnau, dulliau ac offer y gellir eu defnyddio i fesur polisi, ymyriad neu wasanaeth o ran eu heffeithiau posibl ar iechyd poblogaeth, a dosbarthiad yr effeithiau hynny o fewn poblogaeth (European Centre for Health Policy, 1999)
Anghydraddoldebau iechyd	Y gwahaniaethau systematig mewn statws iechyd a llesiant grwpiau gwahanol (McCartney et al., 2019).
Anghydraddoldebau iechyd	Gwahaniaethau mewn statws iechyd sy'n ddiangen, y mae modd eu hosgoi, sy'n annheg ac sy'n anghyfiawn (World Health Organization, 2024).
Iechyd ym Mhob Polisi (HiAP)	Dull o lunio polisïau sy'n ystyried goblygiadau iechyd penderfyniadau ar draws sectorau yn systematig, gan geisio synergeddau ac osgoi effeithiau iechyd niweidiol polisïau y tu allan i'r sector iechyd er mwyn gwella iechyd y boblogaeth a thegwch iechyd. (PAHO, 2023).
Asesiad Effaith Integredig	Offeryn a ddefnyddir gan sefydliadau'r sector cyhoeddus i asesu effaith eu penderfyniadau a'u polisïau ar grwpiau cydraddoldeb, yr amgylchedd, yr economi, a meysydd eraill o ddiddordeb (Audit Wales, 2022).
Cyfranogol	Wedi'i nodweddu gan neu'n cynnwys cyfranogiad gyda rhanddeiliaid allweddol.
Grŵp poblogaeth	Mae grŵp poblogaeth yn cyfeirio at grŵp o unigolion sydd wedi'u huno gan ffactor cyffredin, er enghraifft lleoliad daearyddol, ethnigrwydd, clefyd, oedran neu ryw.
Data a thystiolaeth sylfaenol	Data neu dystiolaeth a gesglir yn uniongyrchol o ffynhonnell uniongyrchol.
Ansoddol	Yn ymwneud â natur neu safon rhywbeth, yn hytrach na'i faint.
Meintiol	Wedi'i fesur yn ôl maint rhywbeth.

Data a thystiolaeth eilaidd	Data neu dystiolaeth a gesglir gan rywun heblaw'r prif ddefnyddiwr.
Rhanddeiliad	Rhanddeiliaid yw'r rhai sy'n ymwneud â datblygu'r cynnig a'r rhai y mae'n debygol y bydd y cynnig yn effeithio arnynt.
Datblygu Cynaliadwy	Datblygiad sy'n diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Mae'n cydbwyso twf economaidd, diogelu'r amgylchedd a llesiant cymdeithasol er mwyn sicrhau iechyd a ffyniant hirdymor ar gyfer pobl a'r blaned.
Egwyddor Datblygu Cynaliadwy	O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, rhaid i bob corff cyhoeddus yng Nghymru weithredu mewn ffordd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Mae hyn yn cynnwys y pum ffordd o weithio: cydweithio, integreiddio, cynnwys, hirdymor ac atal.
Triongli	Dod â data ynghyd (data meintiol ac/neu ansoddol) er mwyn datblygu dealltwriaeth gynhwysfawr o bwnc.
Penderfynyddion Ehangach Iechyd	Ystod amrywiol o ffactorau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol sy'n effeithio ar iechyd pobl.

Cyfeiriadau

- Audit Wales, 2022. *Equality Impact Assessments: More than a Tick Box Exercise?* Online: <https://www.audit.wales/publication/equality-impact-assessments-more-tick-box-exercise> (accessed 24.11.24).
- Dahlgren, G., Whitehead, M., 2021. The Dahlgren-Whitehead model of health determinants: 30 years on and still chasing rainbows. *Public Health* 199, 20–24. <https://doi.org/10.1016/j.puhe.2021.08.009>
- Drane, M., Green, L., Ashton, K., Fletcher, M., Azam, S., 2024. *Putting the Spotlight on Health, Well-being and Equity Using Health Impact Assessment: Case Studies from Public Bodies in Wales*. Online: <https://phwwhocc.co.uk/resources/putting-the-spotlight-on-health-well-being-and-equity-using-health-impact-assessment-case-studies-from-public-bodies-in-wales/> (accessed 24.11.25).
- Edmonds, N., Parry-Williams, L., Green, L., 2019. *WHIASU Training and Capacity Building Framework for HIA in Wales*. Online: https://phwwhocc.co.uk/wp-content/uploads/2021/02/WHIASU_Training_and_Capacity_Building_Framework_for_HIA_in_Wales_2019-2024_FINAL_TECHNICAL_DOCUMENT.pdf (accessed 24.11.25).
- European Centre for Health Policy, 1999. *Health Impact Assessment. Main concepts and suggested approach. Gothenburg Consensus Paper*. Online: <https://hiap.goeg.at/sites/hiap.goeg.at/files/2019-10/Gothenburg%20Consensus%20Paper.pdf> (accessed 24.11.25).
- Green, L., Lewis, R., Evans, L., Morgan, L., Parry Williams, L., Azam, S., Bellis, M.A., 2020. *A COVID-19 pandemic world and beyond: The public health impact of home and agile working in Wales*. Online: <https://phwwhocc.co.uk/resources/a-covid-19-pandemic-world-and-beyond-the-public-health-impact-of-home-and-agile-working-in-wales/> (accessed 24.11.25).
- Green, L., Parry-Williams, L., Edmonds, N., 2017. *Quality Assurance Review Framework for Health Impact Assessment*. Online: <https://phw.nhs.wales/services-and-teams/policy-and-international-health-who-collaborating-centre-on-investment-for-health-well-being/publications-and-resources-bucket/quality-assurance-review-framework-for-health-impact-assessment-hia1/> (accessed 24.11.25).
- IEMA, 2024. *IEMA - Competent Expert for Health Impact Assessment including Health in Environmental Assessments - May 2024*. Online: <https://www.iema.net/resources/blog/2024/05/22/advice-note-competent-experts-for-assessing-health-impact> (accessed 24.11.25).
- International Association for Impact Assessment, 2014. *Health Impact Assessment*. Online: https://unece.org/sites/default/files/datastore/fileadmin/DAM/env/eia/documents/WG2.4_may2015/Fastips_8_Health.pdf (accessed 24.11.25).

- McCartney, G., Popham, F., McMaster, R., Cumbers, A., 2019. Defining health and health inequalities. *Public Health, Special issue on Migration, Ethnicity, Race and Health* 172, 22–30. <https://doi.org/10.1016/j.puhe.2019.03.023>
- PAHO, 2023. *Health in All Policies - PAHO/WHO | Pan American Health Organization*. Online: <https://www.paho.org/en/topics/health-all-policies> (accessed 24.11.25).
- Robert Wood Johnson Foundation, 2022. *Visualizing Health Equity: One Size Does Not Fit All Infographic*. Online: <https://www.rwjf.org/content/rwjf-web/us/en/insights/our-research/infographics/visualizing-health-equity.html> (accessed 24.11.25).
- The Health Foundation, 2023. *Health Equals | Building blocks. Health Equals*. Online: <https://healthequals.org.uk/building-blocks/> (accessed 24.11.25).
- UK Government, 2010. *Equality Act 2010*. Online: <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/section/4> (accessed 24.11.25).
- United Nations, 2020. *United Nations Sustainable Development Goals*. Online: <https://www.un.org/sustainabledevelopment/> (accessed 24.11.25).
- Wales Health Impact Assessment Support Unit, 2012. *Health Impact Assessment. A Practical Guide*. Online: <https://phwwhocc.co.uk/resources/a-practical-guide-to-hia/> (accessed 24.11.25).
- Wales Health Impact Assessment Support Unit, M., 2024. *Health Impact Assessment (HIA): Frequently Asked Questions*. World Health Organ. Collab. Cent. Invest. Health Well-Being. Online: <https://phwwhocc.co.uk/resources/health-impact-assessment-hia-frequently-asked-questions/> (accessed 24.11.25).
- Welsh Government, 2021. *A More Equal Wales: The Socio-economic Duty*. Online: <https://www.gov.wales/more-equal-wales-socio-economic-duty> (accessed 24.11.25).
- Welsh Government, 2017. *Public Health (Wales) Act 2017*. Online: <https://www.legislation.gov.uk/anaw/2017/2/contents/enacted> (accessed 24.11.25).
- Welsh Government, 2015. *Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015*. Online: <https://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/2/contents/enacted> (accessed 24.11.25).
- World Health Organization, 2024. *Health equity*. Online: https://www.who.int/health-topics/health-equity#tab=tab_1 (accessed 24.11.25).
- World Health Organization, 2017. *Determinants of health*. Online: <https://www.who.int/news-room/questions-and-answers/item/determinants-of-health> (accessed 24.11.25).
- World Health Organization, 1948. *Constitution of the World Health Organization*. Online: <https://www.who.int/about/governance/constitution> (accessed 24.11.25).

Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru (UGAEIC)

Wedi'i sefydlu yn 2004, mae UGAEIC, Cyfarwyddiaeth Polisi ac Iechyd Rhyngwladol, Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar 'Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant', Iechyd Cyhoeddus Cymru yn darparu gwasanaeth Cymru gyfan ar gyfer **cyngor, hyfforddiant a chanllaw** ar ymarfer HIA a HiAP. Dyma'r arweinydd byd-eang ym maes HIA.

Rôl UGAEIC yw cefnogi'r ddarpariaeth o HIA o ansawdd uchel ledled Cymru drwy:

- Cefnogi datblygiad a defnydd effeithiol o'r HIA a'r HiAP yng Nghymru.
- Cyfrannu at wreiddio'r dull HiAP drwy ymgysylltu â Llywodraeth Cymru a sectorau polisi gwahanol gan gynnwys cynllunio gofodol, masnach, iechyd, newid hinsawdd, cynaliadwyedd, tai, trafnidiaeth.
- Cydweithio ag amrywiaeth o sefydliadau cyhoeddus, statudol, gwirfoddol, cymunedol, academiaidd a phreifat yng Nghymru ac yn rhyngwladol.
- Datblygu a gwella'n barhaus yr ymarfer ac ymchwil ar HIA.
- Arloesi o ran rhoi HIA ar waith mewn meysydd newydd.
- Adnoddau cyhoeddi a phapurau academiaidd.
- Hyrwyddo gwaith Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a UGAEIC ym maes HiAP.

Mae rhagor o wybodaeth, adnoddau ac astudiaethau achos ar gael ar [wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru](#).

Cyswllt: UGAEIC.PublicHealthWales@wales.nhs.uk i gael cyngor ar HIA.

Atodiad 1: Mathau o HIA a'r broses, gan gynnwys adnoddau defnyddiol

Mae'r tabl hwn yn esbonio mewn modd defnyddiol pryd i gynnal y mathau gwahanol o HIA, camau'r HIA a'r camau gweithredu i'w cymryd, a rhai dolenni i adnoddau defnyddiol. Mae'n bwysig nodi mai canllaw yn unig yw hwn a gall fod yn hyblyg yn dibynnu ar y cynnig sy'n cael ei asesu, y cyd-destun a'r adnoddau. Mae'r camau sgrinio a chwmpasu yn debyg iawn ar gyfer HIA Cyflym a HIA Cynhwysfawr. O ystyried y cam asesu tystiolaeth, mae'r ddau fath o HIA yn wahanol o ran eu dull.

Cyflym (HIA 'safonol')

Y math hwn o HIA yw'r math o HIA a ddefnyddir fwyaf eang a gall gymryd dyddiau neu wythnosau a gall olygu sefydlu grŵp llywio bach. Mae'r camau a gymerir yn gymesur â'r amgylchiadau a'r amser sydd ar gael. **Cynghorir bod rhanddeiliaid yn cymryd rhan.**

Senarios	Camau'r broses HIA a'r camau gweithredu	Adnoddau ac offer defnyddiol
Gall y math hwn o HIA fod yn ddefnyddiol os yw amserlenni'n gyfyngedig oherwydd amserlenni ymgynghori neu wneud penderfyniadau. Mae hefyd yn darparu tystiolaeth i wneuthurwyr penderfyniadau neu weithdrefnau llywodraethu bod canlyniadau iechyd a llesiant wedi'u hystyried a bod hyn wedi'i gyflawni drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol.	Cam 1: Sgrinio: Gan ddefnyddio'r Templed Sgrinio, bydd hyn yn darparu asesiad cychwynnol i lywio'r HIA. Dylid gwneud hyn ar y cyd, gyda mwy nag un person yn cyfrannu at y drafodaeth*. Cam 2: Cwmpasu: Cwmpasu'r HIA gan ddefnyddio'r Templed Cwmpasu. Cam 3: Arfarnu tystiolaeth: Casglu a chrynhai pob math o dystiolaeth gan gynnwys tystiolaeth a data sy'n bodoli eisoes. Gall hyn gynnwys adolygiad llenyddiaeth byr o dystiolaeth feintiol ac ansoddol, trosolwg byr o gyd-destun y polisi, proffil poblogaeth/cymuned sy'n cynnwys gwybodaeth a data iechyd (sydd fel arfer yn bodoli) i lywio gwerthusiad o unrhyw effeithiau ochr yn ochr â gweithdy cyfranogol neu ddull ymgysylltu arall sy'n ceisio gwybodaeth a phrofiad rhanddeiliaid. Cam 4: Adrodd ac argymhellion: Dylid ysgrifennu'r holl ganfyddiadau'n glir ac yn gryno mewn fformat adroddiad byr. Cam 5: Adolygu a myfyrio: Cynnal adolygiad a myfyrdod gydag aelodau neu gyfranwyr y tîm HIA a monitro a gwerthuso'r effaith. *Os ydych chi'n cynnal HIA fel arfer gorau neu eisoes yn gwybod y bydd cynnig yn cael effaith ar iechyd, llesiant a thegwch, nid oes angen cynnal Sgrinio.	- Taflen gofnodi Sgrinio HIA (Atodiad 3) - Templed Cwmpasu HIA (Atodiad 6) - Agenda gweithdy HIA (Atodiad 2) - Adnodd Grwpiau Poblogaeth a Phenderfynyddion Ehangach Iechyd a Llesiant (Atodiad 4) - Templed cofnodi gweithdy HIA (Atodiad 7) - Enghraifft o astudiaeth achos cyflym: https://icccgsib.co.uk/adnoddau/dan-sylw-iechyd-llesiant-a-thegwch-gan-ddefnyddio-asesur-effaith-ar-iechyd-astudiaethau-achos-o-gyrff-cyhoeddus-yng-nghymru/

Atodiad 1: Mathau o HIA a'r broses, gan gynnwys adnoddau defnyddiol (parhad)

Cynhwysfawr

Gall y math hwn o HIA gymryd sawl wythnos neu fis i'w gwblhau, a all fod yn ddwys o ran adnoddau. Fel arfer, comisiynir y math hwn o HIA trwy ymgynghorwyr arbenigol. Caiff pob cam o'r broses HIA ei gymryd. Gellir integreiddio'r math hwn o HIA i brosesau asesu effaith eraill, er enghraifft, Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol. Maent yn gofyn am gasglu data a thystiolaeth yn fwy cynhwysfawr, gan gynnwys y cyd-destun polisi a thystiolaeth ehangach trwy chwiliadau llenyddiaeth, casglu data meintiol neu ansoddol sylfaenol fel cyfweiliadau neu weithdai a deallusrwydd iechyd ac ystadegau demograffig mwy penodol. Mae'n fwy tebygol mewn HIA cynhwysfawr y cyhoeddir adroddiad llawn ar gyfer pob cam o'r broses. Bydd grŵp llywio neu grŵp ymgynghorol o arbenigwyr yn craffu ar hyn wrth i'r HIA fynd rhagddo.

Senarios	Camau'r broses HIA a'r camau gweithredu	Adnoddau ac offer defnyddiol
Pennir y math hwn o HIA gan ddeddfwriaeth neu pan mae'n hanfodol i ddadansoddi polisiau, cynigion, cynlluniau neu brosiectau pwysig yn fanylach er mwyn llywio penderfyniadau a chamau gweithredu a all fod yn hynod bwysig ac yn eang eu cwmpas ar gyfer y boblogaeth. Dyma rai enghreifftiau: Prosiectau seilwaith cenedlaethol mawr fel Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol yng Nghymru neu Brosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol yn y DU e.e. Gorsafoedd Ynni Niwclear.	Cam 1: Sgrinio: Gan ddefnyddio'r Templed Sgrinio, bydd hyn yn darparu asesiad cychwynnol i lywio'r HIA. Cam 2: Cwmpasu: Cwmpasu'r HIA gan ddefnyddio'r Templed Cwmpasu. Grŵp llywio a chynghori a gafodd ei sefydlu i oruchwylio'r broses drwy gydol yr HIA. Mae'r grŵp cynghori yn annibynnol ar y rhai sy'n cynnal yr HIA. Ysgrifennir adroddiadau ar gyfer pob cam o'r broses HIA ac yna cânt eu hadolygu gan y grŵp cynghori, a chyflwynar grŵp sylwadau. Cam 3: Arfarnu dystiolaeth: Casglu a chrynhai pob math o dystiolaeth, gan gynnwys adolygiad llenyddiaeth cynhwysfawr o dystiolaeth feintiol ac ansoddol, trosolwg o gyd-destun y polisi, proffil poblogaeth/cymuned sy'n cynnwys gwybodaeth a data iechyd i lywio'r ystyriaeth o effeithiau ochr yn ochr â gweithdy cyfranogol neu ddull ymgysylltu arall sy'n ceisio gwybodaeth a phrofiad rhanddeiliaid. Mae'r holl dystiolaeth yn cael ei chasglu mewn tabl effaith sy'n cynnwys categorïddio dystiolaeth.	- Taflen gofnodi Sgrinio HIA (Atodiad 4) - Templed Cwmpasu HIA (Atodiad 6) - Agenda gweithdy HIA (Atodiad 2) - Adnodd Grwpiau Poblogaeth a Phenderfynyddion Ehangach Iechyd a Llesiant (Atodiad 4) - Templed cofnodi gweithdy HIA (Atodiad 7) - Enghraifft o astudiaeth achos gynhwysfawr: https://icccgsib.co.uk/adnoddau/dan-sylw-iechyd-llesiant-a-thegwch-gan-ddefnyddio-asesur-effaith-ar-iechyd-astudiaethau-achos-o-gyrff-cyhoeddus-yng-nghymru/

Senarios	Camau'r broses HIA a'r camau gweithredu	Adnoddau ac offer defnyddiol
- Estyniadau i feysydd awyr, adeiladu ffyrdd mawr, neu ddatblygiadau neu newidiadau polisi neu wasanaeth cenedlaethol neu sefydliadol sylweddol fel Brexit neu ymyriadau i fynd i'r afael â phandemigau. - Polisiâu cenedlaethol neu leol mawr a fydd yn effeithio ar bawb fel Brexit, cyfyngiadau symud, newidiadau i wasanaethau neu newid hinsawdd.	Cam 4: Adrodd ac argymhellion: Dylid ysgrifennu'r holl ganfyddiadau'n glir ac yn gryno ar ffurf adroddiad. Cyflwynir adroddiadau terfynol yn rhan o'r broses benderfynu/cymeradwyo ar gyfer y cynnig. Cam 5: Adolygu a myfyrio: Cynnal adolygiad a myfyrdod gydag aelodau neu gyfranwyr y tîm HIA a monitro a gwerthuso'r effaith. Dylai'r adroddiad HIA hefyd fod yn destun sicrhau ansawdd.	

Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (HIA): Enghraifft o agenda gweithdy cyfranogol

Dyma enghraifft o agenda i'w defnyddio wrth gynnal gweithdy cyfranogol ar gam Sgrinio neu ar gam Arfarnu'r HIA.

Diolch i chi am gytuno i gymryd rhan yn y gweithdy Asesu'r Effaith ar Iechyd (HIA) hwn ar <nodwch enw'r cynnig sy'n cael ei asesu>. Bydd yr holl ymatebion yn cael eu cadw'n gyfrinachol, ac mae gennych hawl i dynnu'n ôl o'r gweithdy ar unrhyw adeg.

Hwylusydd y Gweithdy: <nodwch yr enw fel sy'n briodol>

15 munud	Cofrestru (os yw wyneb yn wyneb)
10 munud	Cyflwyniadau
10 munud	Amlinelliad o'r cynnig i'w asesu
10 munud	Amlinelliad o'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd a'r bore
5 munud	Cyflwyniad i'r adnodd 'Grwpiau Poblogaeth a Phenderfynyddion Ehangach Iechyd a Llesiant'.
55 munud	Trafodaeth – defnyddio'r adnodd 'Grwpiau Poblogaeth a Phenderfynyddion Ehangach Iechyd a Llesiant' a'r 'Templed cofnodi sgrinio' neu'r 'Templed cofnodi'r gweithdy HIA' i nodi effeithiau iechyd allweddol y cynnig a'r grwpiau poblogaeth sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio.
15 munud	Egwyl
30 munud	Trafodaeth – parhad
45 munud	Adborth neu argymhellion
5 munud	Diwedd glo a Gwerthuso

Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (HIA): Taflen Cofnodi Sgrinio

Gellir defnyddio'r daflen cofnodi sgrinio ar Gam Sgrinio'r broses HIA i helpu i arwain a chofnodi'r trafodaethau. Dylid ei defnyddio ochr yn ochr â'r adnodd Grwpiau Poblogaeth a Phenderfynyddion Ehangach Iechyd a Llesiant.

Dyddiad:

Cynhaliwyd gan:

Teitl y rhaglen, polisi neu brosiect:

Disgrifiad (gan gynnwys amcanion a nodau allweddol):

1. Y grwpiau poblogaeth allweddol y bydd y rhaglen, polisi neu brosiect yn effeithio arnynt neu y gallent effeithio arnynt

Gan ddefnyddio'r rhestr o grwpiau poblogaeth yn yr adnodd *Grwpiau Poblogaeth a Phenderfynyddion Ehangach Iechyd a Llesiant*, aseswch pa grwpiau ymysg y boblogaeth gyffredinol y gallai'r cynnig effeithio arnynt a sut:

Grwpiau poblogaeth:

Grwpiau eraill:

2. Penderfynyddion ehangach iechyd a llesiant

Gan ddefnyddio'r adnodd *Grwpiau Poblogaeth a Phenderfynyddion Ehangach Iechyd a Llesiant*, ystyriwch:

- a. sut (ym mha ffordd naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol), a
- b. i ba raddau (effaith sylweddol/cymedrol/bach) y gallai'r grwpiau hyn o fewn y boblogaeth a'r boblogaeth gyffredinol ei hunan gael eu heffeithio gan y cynnig neu y gallai'r cynnig fod â goblygiadau iddynt – a chrynowch hyn ar gyfer pob rhan ar y daflen isod. Os nad oes unrhyw effaith debygol neu os yw'r effaith yn fach iawn, yna symudwch i'r rhan nesaf.

Ymddygiad sy'n effeithio ar iechyd		Y Grwpiau Poblogaeth yr Effeithir Arnynt
Effeithiau Cadarnhaol	Effeithiau Negyddol	

Amodau cymdeithasol a chymunedol sy'n effeithio ar iechyd		Y Grwpiau Poblogaeth yr Effeithir Arnynt
Effeithiau Cadarnhaol	Effeithiau Negyddol	

Iechyd meddwl a llesiant		Y Grwpiau Poblogaeth yr Effeithir Arnynt
Effeithiau Cadarnhaol	Effeithiau Negyddol	

Amodau byw ac amgylcheddol sy'n effeithio ar iechyd		Y Grwpiau Poblogaeth yr Effeithir Arnynt
Effeithiau Cadarnhaol	Effeithiau Negyddol	

Amodau economaidd sy'n effeithio ar iechyd		Y Grwpiau Poblogaeth yr Effeithir Arnynt
Effeithiau Cadarnhaol	Effeithiau Negyddol	

Mynediad at wasanaethau a'u hansawdd		Y Grwpiau Poblogaeth yr Effeithir Arnynt
Effeithiau Cadarnhaol	Effeithiau Negyddol	

Ffactorau macro-economaidd, amgylcheddol a chynaliadwyedd		Y Grwpiau Poblogaeth yr Effeithir Arnynt
Effeithiau Cadarnhaol	Effeithiau Negyddol	

3. Crynodeb o'r Effeithiau Iechyd a Llesiant Posibl a Nodwyd

4. Argymhellion

A gynhaliwyd asesiadau effaith eraill, neu a fydd asesiadau o'r fath yn cael eu cynnal? Er enghraifft, Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, Asesiad o'r Effaith ar yr Amgylchedd. Neu a fydd hyn yn llunio rhan o asesiad o'r fath?

A yw'r effeithiau a nodwyd uchod yn ddigon i warantu HIA?

Ydyn Nac ydyn

Os nad ydynt, beth yw'r rhesymau dros beidio â chynnal asesiad?

Os nad ydynt, a oes angen cymryd camau ychwanegol o ganlyniad i'r Cam Sgrinio?

Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (HIA): Grwpiau Poblogaeth a Phenderfynyddion Ehangach Iechyd a Llesiant

Dylid defnyddio'r adnodd hwn yn ystod camau Sgrinio ac Arfarnu Tystiolaeth HIA er mwyn nodi'r penderfynyddion ehangach, a'r grwpiau poblogaeth y gallai polisi/prosiect/cynnig effeithio arnynt. Dim ond canllaw yw'r adnodd hwn ac nid yw'n gynhwysfawr. Er gwybodaeth hefyd, cydnabyddir y gall y derminoleg newid dros amser.

Grwpiau Poblogaeth:

Mae rhai grwpiau o'r boblogaeth yn fwy agored i ddioddef anghydraddoldebau iechyd. Mewn HIA, mae sensitifrwydd i effeithiau-boed yn gadarnhaol neu negyddol-yn dibynnu ar nodweddion y boblogaeth leol, y cyd-destun a natur y cynnig. Gallai fod yn briodol canolbwyntio ar grwpiau sydd ag amryw o anafanteision.

Grwpiau Rhyw/Rhywedd

- Benyw
- Gwryw
- Trawsryweddol
- Anneuaidd
- Arall (nodwch)

Grwpiau oedran (Gellir nodi ystod oedran ar gyfer ystyriaeth arbennig)

- Blynnyddoedd cynnar (gan gynnwys beichiogrwydd a babanod hyd at 2 oed)
- Plant a phobl ifanc
- Oedolion o oedran gweithio
- Pobl hŷn

Grwpiau cyflogaeth / incwm

- Economaidd weithgar
- Economaidd anweithgar
- Pobl ar incwm isel
- Pobl ar gcontractau dros dro neu dim oriau
- Pobl nad ydynt yn gallu gweithio oherwydd salwch
- Di-waith/heb waith
- Gwirfoddolwyr
- Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET)

Grwpiau y mae risg uwch iddynt wynebu gwahaniaethu neu anfantais gymdeithasol arall

- Gofalwyr
- Lleiafrifoedd ethnig (nodwch)
- Cyn-droseddwy
- Sipsiwn, Roma a Theithwyr
- Digartref neu heb gartref sefydlog
- Iaith/diwylliant (nodwch)
- Teuluoedd rhiant unigol
- Plant sy'n derbyn gofal neu'r rheini sy'n gadael gofal
- Troseddwy
- Pobl â chyflyrau iechyd hirdymor
- Pobl â chyflyrau iechyd meddwl
- Pobl ag anabledau/anawsterau corfforol, synhwyrdd neu ddysgu
- Grwpiau ffoaduriaid a cheiswyr lloches
- Grwpiau crefyddol (nodwch)
- Gweithwyr rhyw
- Grwpiau cyfeiriadedd rhywiol
- Cyn-filwyr neu staff milwrol

Grwpiau a/neu leoliadau daearyddol

- Pobl mewn lleoliadau allweddol: mannau gweithio/ysgolion/ysbytai/cartrefi gofal/carchardai
- Pobl sy'n byw mewn ardaloedd sy'n arddangos dangosyddion economaidd a/neu iechyd gwael
- Pobl sy'n byw mewn ardaloedd trefol neu wledig
- Pobl sy'n byw mewn ardaloedd ynysig neu wedi'u gorboblogi
- Pobl nad ydynt yn gallu cael mynediad at wasanaethau a chyfleusterau

Penderfynyddion Ehangach Iechyd a Llesiant:

1. Ymddygiad sy'n effeithio ar iechyd

- Deiet / maeth / bwydo babanod
- Gweithgaredd corfforol
- Ymddygiad caethiwus/cymryd risgiau (gamblo, camddefnyddio sylweddau, fepio, smygu, alcohol)
- Defnyddio meddyginiaeth heb bresgripsiwn, a chamddefnyddio meddyginiaeth ar bresgripsiwn.
- Gweithgaredd rhywiol
- Patrymau cysgu
- Defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol

2. Amodau cymdeithasol a chymunedol sy'n effeithio ar iechyd

- Profiadau niweidiol yn ystod plentyndod
- Ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Grym a dylanwad y dinesydd
- Cydlyniant cymunedol, hunaniaeth, balchder lleol a gwytnwch
- Dadleoli
- Perthnasoedd teuluol a pherthnasoedd â chyfoedion
- Iaith
- Ethos diwylliannol ac ysbrydol
- Natur gymdogol
- Mathau eraill o allgáu cymdeithasol h.y. digartrefedd, carchariad
- Magu plant ac ymlyniant baban (cysylltiad agos cynnar rhwng baban a'r prif ddarparwr gofal)
- Pwysau gan gyfoedion
- Hiliaeth
- Ymdeimlad o berthyn
- Ynysigrwydd/unigedd cymdeithasol
- Cyfalaf, cefnogaeth a rhwydweithiau cymdeithasol
- Gwirfoddoli
- Trais ac aflonyddu

3. Iechyd a Llesiant Meddyliol

A allai fod effeithiau posibl ar:

- Lesiant emosiynol, bodlonrwydd â bywyd neu wytnwch?
- Ymdeimlad o reolaeth?
- Teimlo'n werth chweil, yn cael eu gwerthfawrogi neu ag ymdeimlad o ddiben?
- Ansicrwydd neu orbryder?
- Teimlo'n ddiogel?
- Cymryd rhan mewn bywyd cymunedol ac economaidd?

4. Amodau byw ac amgylcheddol sy'n effeithio ar iechyd

- Ansawdd yr aer
- Apêl ardal
- Diogelwch cymunedol
- Mynediad, argaeledd ac ansawdd mannau gwyrdd a glas, a naturiol
- Ansawdd, deiliadaeth a gwytnwch tai
- Yr amgylchedd dan do
- Iechyd a diogelwch h.y. cwympiadau, diogelwch y cartref, diogelwch mannau cyhoeddus
- Llygredd golau
- Sŵn
- Ansawdd a diogelwch mannau chwarae (ffurfiol ac anffurfiol)
- Diogelwch ffyrdd
- Arogleuon
- Trosglwyddiad clefydau trosglwyddadwy
- Amgylchedd trefol/gwledig adeiledig a dyluniad cymdogaethau
- Gwaredu gwastraff, ailgylchu a thipio anghyfreithlon
- Ansawdd y dŵr h.y. dŵr y môr

5. Amodau economaidd sy'n effeithio ar iechyd

- Anweithgarwch economaidd
- Lefelau incwm
- Dyled bersonol a dyled aelwyd
- Tlodi gan gynnwys tlodi bwyd a thanwydd
- Math o gyflogaeth h.y. parhaol/dros dro, amser llawn/rhan amser
- Diweithdra / Cyflogaeth
- Amodau gweithio h.y. amgylchedd gweithio, bwlio, iechyd a diogelwch

6. Mynediad at wasanaethau a'u hansawdd

- Cyngor gyrfaol
- Addysg a hyfforddiant
- Technoleg gwybodaeth, mynediad at y rhynggrwyd, gwasanaethau digidol
- Gwasanaethau hamdden
- Gwasanaethau meddygol ac iechyd
- Gwasanaethau gofalu eraill h.y. gofal cymdeithasol; y Trydydd Sector; gwasanaethau ieuenctid; gofal plant
- Amwynderau cyhoeddus h.y. neuaddau pentref, llyfrgelloedd, canolfannau cymunedol
- Siopau a gwasanaethau masnachol
- Trafnidiaeth gan gynnwys parcio, trafndiaeth gyhoeddus, teithio llesol

7. Ffactorau macro-economaidd, amgylcheddol a chynaliadwyedd

- Addasu a lliniaru newid yn yr hinsawdd h.y. llifogydd, tywydd poeth
- Bioamrywiaeth
- Penderfynyddion, budd a dylanwad masnachol
- Costau byw h.y. prisiau bwyd, rhent, trafndiaeth a thai
- Datblygu economaidd gan gynnwys masnach a chytundebau masnach
- Polisiâu'r llywodraeth (y DU a datganoledig) h.y. Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, Deddf Iechyd Cyhoeddus (Cymru) 2017, Treth Economaidd-gymdeithasol
- Cynnyrch Domestig Gros
- Chwyddiant
- Adfywio
- Datblygu cynaliadwy
- Hawliau dynol

Penderfynyddion Cymdeithasol Iechyd

Ffordd o fyw			
Penderfynyddion	Llwybr i effaith*	Cadarnhaol*	Negyddol*
Bwyta'n iach	Cynnydd mewn ffordd o fyw/coginio yn yr awyr agored. Annog deiet yn seiliedig ar blanhigion yn rhan o fesurau lliniaru	Gall gynyddu'r nifer sy'n bwyta 5 dogn y dydd	Gall gynyddu cymeriant cig os bydd cynnydd o ran bwyta yn yr awyr agored/ barbeciws
Cymeriant alcohol	Cynnydd mewn ffordd o fyw/coginio yn yr awyr agored		Efallai bydd cynydd os bydd cynnydd mewn ffordd o fyw awyr agored Gall straen gynyddu defnydd
Mynediad at ddŵr	Risg gynyddol o sychder		Mae cyfnodau o brinder dŵr yn cynyddu Nifer fawr o bobl (80,000) ar gyflenwadau dŵr preifat yng Nghymru heb unrhyw fynediad at gyflenwad cyhoeddus os bydd dim dŵr ar gael yn eu ffynhonnell breifat
Ansawdd y dŵr	Tywydd eithafol		Ansawdd dŵr yn is – salwch a gludir gan ddŵr?
Gweithgareddau cymryd risg: gweithgaredd yn seiliedig ar ddŵr	Tywydd eithafol: gwres a sychder	Cynnydd mewn chwaraeon dŵr	Cynnydd posibl mewn anafiadau o nofio mewn lleoliadau peryglus a/neu neidio i afonydd/llynnoedd bas ac ati yn ystod sychder
Gweithgareddau cymryd risg	Tywydd eithafol yn gysylltiedig â straen, gofid meddwl		Cynnydd posibl mewn hunan-niweidio/ defnyddio alcohol/cyffuriau

Atodiad 5: Enghraifft sgrinio – HIA Newid Hinsawdd yng Nghymru

Penderfynyddion	Llwybr i effaith*	Cadarnhaol*	Negyddol*
Gweithgarwch corfforol	Y tywydd yn gynhesach Tywydd eithafol – gwres mawr ac ati. Pobl yn cynyddu gweithgarwch corfforol awyr agored ac yn treulio mwy o amser yn yr awyr agored Newidiadau sy'n gysylltiedig â'r tywydd yn effeithio ar baill ac alergenau / ansawdd aer	Cynnydd mewn gweithgarwch corfforol oherwydd tywydd cynhesach Cynnydd yn yr amser a dreulir mewn mannau gwyrdd a naturiol	Cynnydd posibl mewn lefelau dod i gysylltiad â UV (canser y croen) Cynnydd posibl mewn salwch/dadhydradu sy'n gysylltiedig â gwres Cynnydd posibl mewn asthma/problemau anadlol
Gweithgaredd awyr agoreda	Y tywydd yn gynhesach Pobl yn cynyddu gweithgarwch corfforol awyr agored ac yn treulio mwy o amser yn yr awyr agored Newidiadau sy'n gysylltiedig â'r tywydd yn effeithio ar baill ac alergenau / ansawdd aer	Cynnydd yn yr amser a dreulir mewn mannau gwyrdd a naturiol Cynnydd mewn gweithgareddau cymdeithasol	Cynnydd posibl mewn lefelau dod i gysylltiad â UV (canser y croen) Cynnydd posibl mewn salwch/dadhydradu sy'n gysylltiedig â gwres Cynnydd posibl mewn asthma/problemau anadlol
Y Cyfryngau Cymdeithasol	Tywydd eithafol/risg o ynysu	Gallai fod yn offeryn cyfathrebu pwysig i leihau ynysu neu i gymryd camau gweithredu mewn argyfyngau Ond mae'r effaith bosibl yn gyfyngedig oherwydd signal gwael ac allgáu digidol mewn rhai ardaloedd yng Nghymru	Camwybodaeth / panig yn lledaenu'n gyflym?

Atodiad 5: Enghraifft sgrinio – HIA Newid Hinsawdd yng Nghymru

Ffactorau cymdeithasol a chymunedol			
Penderfynyddion	Llwybr i effaith*	Cadarnhaol*	Negyddol*
Ynysigrwydd cymdeithasol	Tywydd eithafol Dadleoli pobl		Efallai y bydd pobl yn aros dan do gartref yn amlach oherwydd tywydd eithafol a gallai hyn gynyddu ymdeimlad o ynysu Mae pobl/cymunedau sydd wedi'u dadleoli yn teimlo'n ynysig mewn lleoliad/cymuned newydd
Cydluniant cymunedol	Mae mudo'n cynyddu mewn ymateb i newid hinsawdd	Mae mudwyr newydd yn dod â sgiliau i'w cynnig i'r gymuned	Heriau posibl o ran cydluniant cymunedol Cynydd mewn gwahaniaethu/hiliaeth
Cadernid cymunedol	Effeithiau lleol newid hinsawdd	Cymunedau'n gweithio gyda'i gilydd i addasu i newid hinsawdd ac mae hyn yn meithrin cyfalaf cymdeithasol a gwydnwch ychwanegol	Pwysau ar adnoddau, digwyddiadau tywydd eithafol yn chwalu cymunedau
Rhaniadau mewn a rhwng cymunedau a gwrthdaro	Newid hinsawdd	Mentrau'n cael eu rhoi ar waith er mwyn datrys blaenoriaethau anghyson ac adeiladu "cyfalaf pontio"	Efallai bydd grwpiau barn ar newid hinsawdd gwahanol mewn gwrthdaro, mae protestiadau mawr yn creu tensiwn cymunedol Efallai bydd sectorau economaidd gwahanol mewn gwrthdaro e.e. gweithwyr diwydiannau sy'n seiliedig ar danwydd ffosil yn erbyn grwpiau amgylcheddol Tensiynau rhwng pobl sydd â'r adnoddau i fuddsoddi mewn mesurau addasu a lliniaru ar gyfer eu cartref/teuluoedd eu hunain a'r rhai na allant wneud hynny – ffactor sy'n sbarduno anghydraddoldebau cynyddol Efallai bydd pobl yn amddiffyn eu hadnoddau/asedau trwy ffyrdd mwy eithafol e.e. drylliau

Atodiad 5: Enghraifft sgrinio – HIA Newid Hinsawdd yng Nghymru

Penderfynyddion	Llwybr i effaith*	Cadarnhaol*	Negyddol*
Gwrthdaro dros adnoddau	Erydiad arfordirol, effaith tywydd eithafol		Gwrthdaro rhwng pa gymunedau sy'n cael buddsoddiad ar gyfer lliniaru ac "amddiffyn" a pha rai nad ydynt e.e. amddiffyn rhag llifogydd ac amddiffyn yr arfordir
	Prinder dŵr		Gallai gwrthdaro godi ynghylch prinder dŵr a rheoli cyflenwadau dŵr yng Nghymru a rhwng gwledydd y DU
Dadleoli / colli cymunedau	Erydiad arfordirol neu effeithiau newid hinsawdd / tywydd eithafol eraill		Cymunedau cyfan wedi'u dadleoli. Diffyg yswiriant yn cyfrannu at gymunedau'n dod yn anhyfyw
Digartrefedd	Erydiad arfordirol neu effeithiau newid hinsawdd / tywydd eithafol eraill		Rhaid i bobl adael eu cartrefi oherwydd newid hinsawdd Efallai bod tai wedi'u difrodi a heb eu hyswrio Efallai bydd tai yn dod yn anaddas i fyw ynddynt
Diogelwch cymunedol	Tywydd eithafol – yn enwedig gwres mawr		Tystiolaeth o Awstralia'n dangos cynnydd mewn traïs a throsedd yn ystod gwres mawr
Perthnasoedd teuluol/ Perthnasoedd rhyng- genhedlaethol	Newid cymdeithasol mawr		Gall effaith digwyddiadau tywydd eithafol nad ydynt bellach yn "unwaith ac am byth" greu straen a phwysau ar berthnasoedd teuluol.
	Digwyddiadau tywydd eithafol yn dod yn fwy cyffredin Straen ar adnoddau cymunedol Poblogaeth sy'n heneiddio		
			Gall "gwahaniaethau rhwng cenedlaethau" ddatblygu mewn agweddau at newid hinsawdd Gall dadleoli/mudo newid/rhoi straen ar berthnasoedd teuluol a rolau gofalu

Atodiad 5: Enghraifft sgrinio – HIA Newid Hinsawdd yng Nghymru

Penderfynyddion	Llwybr i effaith*	Cadarnhaol*	Negyddol*
Magu Plant	Newid cymdeithasol mawr Digwyddiadau tywydd eithafol yn dod yn fwy cyffredin Straen ar adnoddau	Gallai'r ffordd y mae rhieni'n ymateb i newid hinsawdd ac yn cyfathrebu amdano gael effeithiau cadarnhaol neu negyddol ar blant a phobl ifanc.	Gallai'r ffordd y mae rhieni'n ymateb i newid hinsawdd ac yn cyfathrebu amdano gael effeithiau cadarnhaol neu negyddol ar blant a phobl ifanc Cyngor cyfyngedig i rieni Gallai gwahaniaethau o ran gwybodaeth ac agwedd rhwng rhieni a phlant achosi straen e.e. mae plant yn tueddu i fod yn ymwybodol iawn o faterion amgylcheddol a gallai hyn achosi gwrthdaro mewn teuluoedd pe bai gan rieni agwedd wahanol Gallai rhieni deimlo straen o ran y newid yn yr amgylchedd y maent yn gofalu am blant ynddo. Effaith bosibl ar brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod
Ethos diwylliannol ac ysbrydol	Tywydd eithafol Hinsawdd sy'n newid	Mae diwylliant newydd yn dod i'r amlwg sy'n creu ymatebion cadarnhaol i newid ac argyfwng amgylcheddol – y cwestiwn allweddol yw sut mae pobl y dyfodol yn eu hadnabod eu hunain?	Mae colli tir a lleoedd ystyrllon, anifeiliaid a gweithgareddau diwylliannol pwysig yn achosi gofid - "solastalgia"
	Tywydd eithafol Hinsawdd sy'n newid		Mae Pennod 5 o Asesiad Risg Newid Hinsawdd y DU 2017 yn trafod risgiau i asedau hanesyddol a diwylliannol e.e. adeiladau/lleoedd

Atodiad 5: Enghraifft sgrinio – HIA Newid Hinsawdd yng Nghymru

Iechyd meddwl a llesiant			
Penderfynyddion	Llwybr i effaith*	Cadarnhaol*	Negyddol*
Llesiant emosiynol	Newid hinsawdd Tywydd eithafol		Ansicrwydd Straen Llawer o golledion posibl: tir, cartref, amgylchedd naturiol Ymdeimlad o reolaeth – mae hyn yn bwysig iawn – mae llawer o ffactorau sy'n ymwneud â newid hinsawdd y tu hwnt i reolaeth unigolion a chymunedau Llifogydd – sylfaen dystiolaeth gref bod cyfraddau uwch o orbryder ac iselder
Hunanladdiad	Tywydd eithafol: sychder a gwres mawr		Tystiolaeth o Awstralia'n dangos cynnydd mewn cyfraddau hunanladdiad yn ystod gwres mawr a sychder Mae ffermwyr eisoes yn grwpiau risg uchel a bydd newid hinsawdd yn cael effeithiau penodol ar eu bywoliaeth a'u cartrefi.
Cyfranogiad a chynhwysiant		Cyfranogiad gwleidyddol – gallai mwy o ymgysylltiad fod yn gadarnhaol a darparu ffocws ar gyfer cynyddu ymdeimlad o reolaeth a dod o hyd i datrysiadau	Cyfranogiad gwleidyddol – gallai ddod yn fwy polareiddiedig ac eithafol
Gwydnwch ac asedau cymunedol		Gallai cydnabod "argyfwng" cyffredin ysgogi gweithredu cymunedol, gan ddod â phwrpas cyffredin a chryfhau cysylltiadau cymunedau. Mae rhywfaint o weithredu cymunedol eisoes ar waith e.e. Trefi Trawsnewid, Adfywio Cymru	
Pontio i newid / addasu seicolegol		Mae effaith yn dibynnu ar ddull unigol o newid, ond hefyd sut mae polisi'n datblygu ar lefel leol a chenedlaethol a pha adnoddau sy'n cael eu buddsoddi i gefnogi'r cyfnod pontio	

Atodiad 5: Enghraifft sgrinio – HIA Newid Hinsawdd yng Nghymru

Amodau byw ac amgylcheddol			
Penderfynyddion	Llwybr i effaith*	Cadarnhaol*	Negyddol*
Mynediad at fwyd / diogelwch bwyd	Tywydd eithafol yn y DU ac yn fyd-eang Gwres/sychder/glaw trwm cynyddol Newid hinsawdd graddol	Gall gynyddu'r ystod o gnydau y gellir eu tyfu yn y DU/Cymru	Topograffeg Cymru yn cyfyngu ar y gallu i addasu i ffurfiau newydd o amaethyddiaeth Amodau hinsawdd newidiol yn niweidio amodau tyfu a chynaeafau Tywydd eithafol yn effeithio ar amodau tyfu a chynaeafu yn y DU ac yn fyd-eang Gall cadwyni cyflenwi byd-eang rhai bwydydd gael eu heffeithio
Gwerth maethol bwyd	Newid yn y pridd / amodau tyfu		Gwerth maethol bwyd yn is oherwydd erydiad pridd
Cost bwyd	Newid hinsawdd Tywydd eithafol		Cost rhai bwydydd yn uwch os bydd cyflenwadau'n gyfyngedig
Clefydau a gludir gan fwyd	Gwres cynyddol Cynnydd mewn ffordd o fyw/coginio yn yr awyr agored		Gall gwres cynyddol arwain at gynnydd mewn salwch a gludir gan fwyd - mae angen newid arferion diogelwch bwyd Cynnydd mewn coginio yn yr awyr agored – gall gynyddu'r risg
Amgylchedd dan do e.e. cartrefi, ysgolion, gweithleoedd, ysbytai a chartrefi gofal	Gwres cynyddol		Nid yw cynnydd mewn gwres yn cael ei drafod mewn llawer o adeiladau na rheoliadau adeiladu. Dim tymheredd uchaf ar gyfer gweithleoedd. Pryderon mawr ar gyfer lleoliadau gofal ac ysbytai oherwydd y boblogaeth agored i niwed a'r adeiladau presennol
Trafnidiaeth	Tywydd eithafol Gwres cynyddol	Cyfle i ddatblygu ac ehangu'r defnydd o deithio llesol	Pryderon mawr ynghylch gwres ar drafnidiaeth gyhoeddus Tarfau oherwydd tywydd eithafol

Atodiad 5: Enghraifft sgrinio – HIA Newid Hinsawdd yng Nghymru

Penderfynyddion	Llwybr i effaith*	Cadarnhaol*	Negyddol*
Tanau Gwyllt	Tywydd eithafol Gwres cynyddol Prinder dŵr		Dod yn fwy tebygol a gallai niweidio mannau gwyrdd ac ati
Bioamrywiaeth	Newid hinsawdd Tywydd eithafol		Newid hinsawdd a thywydd eithafol yn effeithio ar rywogaethau a chynefinoedd Gall cynnydd mewn twristiaeth a gwyliau cartref effeithio ymhellach ar ardaloedd gwarchodedig a niweidio mannau naturiol
Mynediad i ardaloedd chwarae	Gwres cynyddol		Gwres eithafol – gall diffyg cysgod a darpariaeth dŵr mewn mannau cyhoeddus a pharciau gyfyngu ar gyfleoedd i chwarae mewn tywydd poeth. Gall offer chwarae hefyd fynd yn rhy boeth i'w ddefnyddio
Gwastraff	Gwres cynyddol		Gall cynnydd mewn tymheredd gynyddu'r peryglon sy'n gysylltiedig â gwastraff e.e. pryfed, arogl
Argaeledd ac ansawdd dŵr	Gwres cynyddol Prinder dŵr		Prinder dŵr eisoes wedi'i nodi'n broblem. Ansawdd dŵr – gall algâu mewn llynnoedd gynyddu oherwydd gwres
Clefydau a gludir gan fector	Newid hinsawdd		Yn debygol o gynyddu

Atodiad 5: Enghraifft sgrinio – HIA Newid Hinsawdd yng Nghymru

Amodau economaidd sy'n effeithio ar iechyd

Penderfynyddion	Llwybr i effaith*	Cadarnhaol*	Negyddol*
Cynhyrchiant	Tywydd eithafol Gwres cynyddol		Gostyngiad posibl yn ystod gwres mawr Tarfau ar yr economi a'r seilwaith mewn tywydd eithafol
Amodau gwaith	Tywydd eithafol Gwres cynyddol		Gall rhai galwedigaethau wynebu mwy o beryglon yn y gwaith e.e. gwres, canser y croen Amgylcheddau gwaith dan do ac awyr agored Efallai y bydd angen gwerthusiadau newydd o risg ac arferion gwaith – rydym wedi addasu i dywydd poeth iawn yn y DU
Dyled / llesiant ariannol	Tywydd eithafol, llifogydd		Gall difrod i gartrefi ac eiddo arall a diffyg yswiriant neu breimymau uchel roi beichiau economaidd ychwanegol ar bobl Gall achosion o gnydau'n methu gynyddu cost bwyd

Mynediad at wasanaethau

Penderfynyddion	Llwybr i effaith*	Cadarnhaol*	Negyddol*
Gwasanaethau iechyd a gofal	Tywydd eithafol Gwres cynyddol		Tarfau posibl oherwydd problemau teithio/trafnidiaeth oherwydd tywydd eithafol h.y. ni all staff fynd i'r gwaith Gwres mewn adeiladau yn bryder mawr Cyfnodau llai rhagweladwy o ran y galw h.y. nid pwysau "gaeaf" yn unig
Y Trydydd Sector	Newid hinsawdd		Cynnydd posibl mewn galw

Atodiad 5: Enghraifft sgrinio – HIA Newid Hinsawdd yng Nghymru

Materion macro			
Penderfynyddion	Llwybr i effaith*	Cadarnhaol*	Negyddol*
Addysg	Newid hinsawdd Tywydd eithafol	Potensial i addysg gael effaith gadarnhaol ar gynyddu gwybodaeth am gynaliadwyedd amgylcheddol Ysgolion eco Newid ymddygiad	Addysg yn cael ei tharfu oherwydd tywydd eithafol
Anghydraddoldebau	Newid hinsawdd		Disgwylir i effeithiau newid hinsawdd gael effaith anghymesur ar grwpiau difreintiedig Tensiynau rhwng pobl sydd â'r adnoddau i fuddsoddi mewn mesurau addasu a lliniaru ar gyfer eu cartref/teuluoedd eu hunain a'r rhai na allant wneud hynny – ffactor sy'n sbarduno anghydraddoldebau cynyddol Anghydraddoldebau cenedlaethau
Seilwaith gan gynnwys trafnidiaeth	Tywydd eithafol Gwres cynyddol		Bydd effeithiau tywydd eithafol, llifogydd ac ati yn effeithio'n anghymesur ar ardaloedd â seilwaith gwaeth.
Deddfwriaethau: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015)		Potensial i ddylanwadu ar ymgysylltiad â datblygu cynaliadwy a gweithredu ar newid hinsawdd ar draws y sector cyhoeddus Nodyn: sut mae nod Cymru Fyd-eang yn dylanwadu ar ddatblygiad economaidd a masnach mewn perthynas â Newid Hinsawdd	

*Os gadewir y gell yn wag, ni nodwyd unrhyw effeithiau.

Grwpiau Poblogaeth:

Grwpiau sy'n gysylltiedig ag oedran

- Plant a phobl ifanc e.e. llesiant meddyliol, ansawdd aer, addysg
- Blynnyddoedd cynnar e.e. straen teuluol, gwres, prinder dŵr
- Oedolion hŷn e.e. gwres, prinder dŵr

Pobl mewn lleoliadau

- Ysgolion
- Gweithleoedd
- Ysbytai a chartrefi gofal
- Trafnidiaeth

Ardaloedd daearyddol

- Ffermwyr a chymunedau gwledig
- Ynysoedd gwres trefol
- Ardaloedd arfordirol
- Ardaloedd perygl llifogydd

Grwpiau difreintiedig eraill

- Ffoaduriaid a cheiswyr lloches
- Y digartref
- Pobl ag anableddau neu gyflyrau iechyd hirdymor

Grwpiau sy'n gysylltiedig â rhywedd

- Dynion – mewn perthynas â risg uwch o hunanladdiad
- Menywod – efallai bydd mwy o gyfrifoldebau gofalu

Galwedigaethau

- Ffermwyr
- Pobl sy'n gweithio yn yr awyr agored
- Pysgotwyr
- Adeiladu
- Gwasanaethau brys

Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (HIA): Templed cwmpasu

Dylid defnyddio'r adnodd hwn yn ystod cam Cwmpasu'r broses HIA. Darperir nodiadau canllaw ar ddiwedd yr adnodd hwn i gefnogi'r gwaith o gwblhau'r cam hwn. Yn ddelfrydol, dylai mwy nag un unigolyn gwblhau'r cam cwmpasu.

Mae'r cam cwmpasu'n pennu elfennau rheoli prosiect, llywodraethu, proses, amcanion, ffocws a maint yr HIA. Mae hefyd yn cyfrannu at gyflawni'r gwerthoedd a'r egwyddorion allweddol sy'n ategu gweithrediad yr HIA gan gynnwys tryloywder, cyfranogiad a gwydnwch.

Dyddiad:

Cynhaliwyd gan:

Teitl a disgrifiad byr o'r polisi, rhaglen, prosiect fydd yn cael ei arfarnu:

Beth yw ffiniau daearyddol y prosiect?

Beth yw'r amserlenni? (A phryd y mae'n rhaid gwneud penderfyniadau hollbwysig?)

A ddylech sefydlu Grŵp Llywio a phwy ddylai fod yn rhan ohono?

A ddylai'r HIA fod yn ymarfer mewnol neu a ddylid comisiynu rhywun?

Pa adnoddau ariannol ac adnoddau dynol sydd eu hangen/ar gael?

Beth yw rolau a chyfrifoldebau'r rhai sy'n cymryd rhan?

Pa fath o HIA sy'n angenrheidiol a/neu'n bosibl yn yr amser sydd ar gael – cyfranogol cyflym neu gynhwysfawr?

Pa fath o dystiolaeth fydd yn darparu'r dull adnabod gorau ar gyfer yr effaith bosibl ar y penderfyniadau yn y cam cwmmpasu ac ar ba grwpiau o'r boblogaeth? Pa ddulliau a ddefnyddir i gasglu'r dystiolaeth?

Pa randdeiliaid y mae angen iddynt gymryd rhan yn y broses?

A oes trefniadau sicrwydd ansawdd ar waith? Pwy yw'r unigolyn mwyaf priodol i gynnal yr asesiad sicrwydd ansawdd (mewnol neu allanol)?

Pa drefniadau sydd ar waith ar gyfer adolygu'r broses HIA, myfyrio arni a monitro ei dylanwad a'i chanlyniadau?

Nodiadau Canllaw

Ffiniau daearyddol

Mae'n bwysig cytuno ar ffiniau daearyddol yr HIA. Mae'n bosibl y bydd effeithiau ar boblogaethau y tu hwnt i'r rheini sy'n cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan y cynnig felly mae'n bwysig gwneud penderfyniad ynghylch lle y byddwch yn pennu unrhyw ffiniau a'r rhesymau dros hyn. Dylech ystyried unrhyw effaith gynyddol bosibl bob tro ac a yw'n berthnasol yn yr asesiad penodol.

Amserlenni

Mae'n hanfodol pennu'r amserlenni gwneud penderfyniadau ar gyfer y cynnig i sicrhau y bydd cyfle i'r HIA ddylanwadu ar y penderfyniad terfynol.

Grŵp Llywio

Gall grŵp llywio ddarparu ffordd effeithiol o ddosbarthu tasgau. Bydd y maint yn dibynnu ar hyd a chymhlethdod y prosiect. Gallai mwy na 12 o bobl fod yn anhylaw. Dylech sicrhau fod gennych gynrychiolwyr o blith y rhanddeiliaid allweddol. Mae hyn yn helpu i hybu cyfranogiad ehangach yn y broses, a pherchnogaeth ohoni. Dylech hefyd geisio sicrhau cymysgedd o sgiliau. Gan ddibynnu ar y math o gynnig a'i gymhlethdod, gallai'r sgiliau hyn gynnwys ymrwymiad a datblygiad cymunedau, ymchwil, rheoli prosiectau a dadansoddi polisi.

Mae'n bosibl y byddwch yn dymuno cynnwys pobl â gwybodaeth benodol. Mae hyn yn debygol o gynnwys iechyd cyhoeddus, ond gallai gynnwys gwybodaeth arbenigol yn y gwyddorau cymdeithasol, epidemioleg, iechyd amgylcheddol neu economïau iechyd hefyd. Dylech gofio hefyd fod gan gynrychiolwyr cymunedol fewnwelediadau penodol ynghylch sut y bydd cynigion yn effeithio ar bobl leol.

Mae amseriad pryd y byddwch yn penderfynu sefydlu grŵp llywio yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Dylech benderfynu ynghylch sefydlu grŵp llywio rhagarweiniol ar ddiwedd y cam sgrinio.

Cymorth mewnol/wedi'i gomisiynu/ychwanegol

Os bydd yr HIA yn datblygu fel agwedd arferol ar wneud penderfyniadau yna ni ddylai fod angen adnoddau ychwanegol a gellir ei feithrin mewn modd sy'n effeithiol ac effeithlon o ran amser drwy gydweithio. Fodd bynnag, ar gyfer rhai HIAs, mae'n bosibl y bydd angen asesiad dyfnach neu elfen adolygu llenyddiaeth ehangach neu efallai y bydd angen i chi gasglu data lleol newydd. Lle y bydd hyn yn angenrheidiol, efallai y byddwch yn dymuno penodi rhywun i ymgymryd â rhai o'r tasgau dan sylw. Ond bydd cost ynghlwm â hyn. Mae penodi rhywun y tu allan i'r sefydliad yn un opsiwn.

Adnoddau

Cadarnhewch pa adnoddau sydd ar gael h.y. cyllid ychwanegol a/neu amser pobl. Bydd angen i chi ddatblygu dull sy'n gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael i chi. .

Rolau a chyfrifoldebau

Bydd amrywiaeth o dasgau i'w gwneud, a dylid cytuno ar y rhain ar y cam hwn. Gall y rhain gynnwys:

- Arwain yr HIA
- Casglu tystiolaeth a'i harfarnu
- Cadeirio cyfarfodydd
- Tasgau gweinyddol/logistaidd h.y. archebu lleoliadau/gwahoddiadau
- Ysgrifennu adroddiadau
- Dosbarthu'r canfyddiadau
- Monitro a gwerthuso

Bydd angen cytuno ar unrhyw rolau cyffredinol yn y grŵp llywio hefyd fel bod yr aelodau'n glir ynghylch yr hyn a ddisgwylir ganddynt. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd aelodau'r grŵp llywio eu hunain yn gyfrifol am ddarparu mynediad i fathau penodol o wybodaeth neu dystiolaeth, neu gefnogi cael mynediad at grwpiau penodol o bobl fel rhan o'r broses o gasglu tystiolaeth dechnegol neu ansoddol. Mae disgwyl iddynt adolygu unrhyw fersiynau drafft o'r adroddiad neu'r gyfres o argymhellion terfynol hefyd.

Proses yr HIA

Mae'n bwysig bod yn agored a thryloyw ac arddangos yn llawn yr hyn sydd wedi'i gynllunio/cyflawni/ystyried, neu beidio, a pham.

Bydd dyfnder eich asesiad yn dibynnu ar yr amserlenni, yr adnoddau sydd ar gael a chymhlethdod y prosiect. Gall asesiadau cyflym gynnwys un cyfarfod â rhanddeiliaid ac adroddiad. Gall asesiadau mwy cynhwysfawr gymryd misoedd i'w cwblhau a gallant gynnwys adolygiadau systematig o lenyddiaeth, casglu data newydd a dadansoddiadau arbenigol.


Y rhanddeiliaid

Rhanddeiliaid yw'r rheini sy'n cael eu heffeithio gan y cynnig neu sydd â budd ynddo. Mae ymrwymiad y rhanddeiliaid a'r gymuned yn bwysig i'w galluogi i gyfrannu eu gwybodaeth a'u mewnwelediad fel rhan o'r arfarniad h.y. tystiolaeth ar sail eu profiadau neu wybodaeth. Gallai cynnal dadansoddiad mapio rhanddeiliaid fod yn ddefnyddiol.

Ni ddylid camgymryd rhanddeiliaid am aelodau posibl o'r grŵp llywio a fyddai'n rhan o'r gwaith o oruchwylio neu ymgymryd â thasgau penodol o fewn yr HIA. Gallant fod yn gynrychiolwyr o'r un sefydliad ond byddai'r disgwyliadau a'r ymrwymiad yn wahanol rhwng rhanddeiliad ac aelod o'r grŵp llywio.

Dulliau i asesu effeithiau a chasglu tystiolaeth

Mae'r HIA yn defnyddio tair elfen o dystiolaeth:



Gan ddibynnu ar natur y cynnig a'r adnoddau a'r amser sydd ar gael, dylai fod gennych ddealltwriaeth sylfaenol o'r dulliau y dymunwch eu defnyddio i asesu'r effeithiau posibl. Bydd yr asesiad yn cael ei hysbysu gan ddata'r boblogaeth leol ac adolygiad o lenyddiaeth/tystiolaeth (lleol, cenedlaethol a rhyngwladol lle y bo'n briodol). Ategir hyn gyda thystiolaeth ansoddol gan randdeiliaid. Gellir cael gafael ar hyn drwy, er enghraifft, gyfarfodydd â rhanddeiliaid, cyfweiliadau ag arbenigwyr allweddol, grwpiau ffocws neu arolygon.

Wrth sicrhau / adolygu ansawdd HIA, bydd angen ystyried ehangder a chryfder y dystiolaeth. Mae hyn yn cynnwys pa mor briodol yw'r dulliau a ddefnyddir i gasglu tystiolaeth h.y. sut y cesglir tystiolaeth gan randdeiliaid. Dylai'r cam cwmpasu amlygu hyn.

Sicrhau Ansawdd

Gan ddibynnu ar gyd-destun a natur yr HIA, gellir cynnal y broses sicrhau ansawdd yn fewnol gan y prif sefydliad neu gall rhanddeiliaid annibynnol ei chynnal. Gall y cam cwmpasu ddarparu manylion ynghylch natur a phroses y dull sicrhau ansawdd os yw'n briodol. Mae 'Fframwaith Adolygu Sicrwydd Ansawdd HIA' (UGAEIC, 2017) ar gael yma: <https://icccgsib.co.uk/whiasu/adnoddau/>

Adolygu, myfyrio a monitro

Dylid cynnal adolygiad o HIA a/neu ei fonitro'n rheolaidd. Gall hyn wella'r hyn a ddysgir o'r broses i hysbysu ymarfer yn y dyfodol (proses werthuso); a/neu hysbysu comisiynwyr neu randdeiliaid ynghylch dylanwad yr HIA (gwerthuso'r effaith); neu fonitro sut y mae'r HIA wedi cael effaith (os o gwbl) ar ganlyniadau iechyd a llesiant fel y rhagwelwyd, mewn perthynas â'r penderfyniadau neu'r poblogaethau a nodwyd yn yr HIA fel y rheini yr effeithir arnynt yn benodol (gwerthuso'r canlyniad).

Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (HIA): Templed Cofnodi'r Gweithdy Cyfranogol

Gellir defnyddio'r templed hwn ar y Cam Arfarnu Tystiolaeth o'r broses HIA i helpu i gofnodi trafodaethau yn ystod gweithdy cyfranogol. Dylid defnyddio hwn ochr yn ochr â'r adnodd Grwpiau Poblogaeth a Phenderfynyddion Ehangach Iechyd a Llesiant.

Dyddiad: _____

Teitl: _____

Disgrifiad: _____

Cadeirydd y Gweithdy: _____

Hwylusydd y Gweithdy: _____

Rhestr o'r sefydliadau a gynrychiolir yn y gweithdy:

1. Grwpiau poblogaeth allweddol yr effeithiwyd arnynt neu a allai gael eu heffeithio

Gan ddefnyddio'r rhestr o grwpiau poblogaeth yn yr adnodd *Grwpiau Poblogaeth a Phenderfynyddion Ehangach Iechyd a Llesiant*, aseswch pa grwpiau ymysg y boblogaeth gyffredinol y gallai'r cynnig effeithio arnynt a sut:

Grwpiau poblogaeth:

Grwpiau eraill:

2. Penderfynyddion ehangach iechyd a llesiant

Gan ddefnyddio'r adnodd Grwpiau Poblogaeth a Phenderfynyddion Ehangach Iechyd a Llesiant, ystyriwch:

- a. sut (ym mha ffordd naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol), a
- b. i ba raddau (effaith sylweddol/cymedrol/bach) y gallai'r grwpiau hyn o fewn y boblogaeth a'r boblogaeth gyffredinol ei hunan gael eu heffeithio gan y cynnig neu y gallai'r cynnig fod â goblygiadau iddynt – a chrynowch hyn ar gyfer pob rhan ar y daflen isod. Os nad oes unrhyw effaith debygol neu os yw'r effaith yn fach iawn, yna symudwch i'r rhan nesaf.

Ymddygiad sy'n effeithio ar iechyd		Y Grwpiau Poblogaeth yr Effeithir Arnynt
Effeithiau Cadarnhaol	Effeithiau Negyddol	

Sylwadau:

Argymhellion:

Amodau cymdeithasol a chymunedol sy'n effeithio ar iechyd		Grwpiau Poblogaeth yr Effeithir Arnynt
Effeithiau Cadarnhaol	Effeithiau Negyddol	

Sylwadau:

Argymhellion:

Iechyd Meddwl a Llesiant		Y Grwpiau Poblogaeth yr Effeithir Arnynt
Effeithiau Cadarnhaol	Effeithiau Negyddol	

Sylwadau:

Argymhellion:

Yr amodau byw ac amgylcheddol sy'n effeithio ar iechyd		Y Grwpiau Poblogaeth yr Effeithir Arnynt
Effeithiau Cadarnhaol	Effeithiau Negyddol	

Sylwadau:

Argymhellion:

Amodau economaidd sy'n effeithio ar iechyd		Y Grwpiau Poblogaeth yr Effeithir Arnynt
Effeithiau Cadarnhaol	Effeithiau Negyddol	

Sylwadau:

Argymhellion:

Mynediad at wasanaethau a'u hansawdd		Y Grwpiau Poblogaeth yr Effeithir Arnynt
Effeithiau Cadarnhaol	Effeithiau Negyddol	

Sylwadau:

Argymhellion:

Ffactorau macro-economaidd, amgylcheddol a chynaliadwyedd		Y Grwpiau Poblogaeth yr Effeithir Arnynt
Effeithiau Cadarnhaol	Effeithiau Negyddol	

Sylwadau:

Argymhellion:

3. Crynodeb o'r Effeithiau Iechyd a Llesiant Posibl a Nodwyd

4. Crynodeb o'r Argymhellion

Atodiad 8: Mesur a rhagweld effeithiau

Ymateb yn Sgil Dod i Gysylltiad ac Ymateb Dos

Gall ymateb yn sgil dod i gysylltiad ac ymateb dos fod yn ddefnyddiol i amcangyfrif lefelau dod i gysylltiad mewn sefyllfaoedd clinigol neu amgylcheddol yn bennaf – achosion lle gellir cael llawer iawn o ddata a mesuriadau technegol manwl gywir (er ei bod hi'n bwysig cofio y gall meintioli effeithiau ar iechyd fod yr un mor ddamcaniaethol â mathau eraill o ragfynegi ac mae'n dibynnu'n fawr ar ansawdd y data a ddefnyddir ar gyfer amcangyfrif). Bydd yn asesu pa mor fawr fydd y newid yn y boblogaeth sy'n agored i niwed a beth fydd yr effaith ganlyniadol ar y boblogaeth honno. Fodd bynnag, gall defnyddio'r math hwn o dystiolaeth fod yn gymhleth ac mae yna ffactorau sy'n tynnu sylw o safbwynt defnyddio'r fethodoleg hon yn unig wrth ragweld effeithiau posibl ar iechyd. O ran dod i gysylltiad â llygryddion, efallai bydd oedi o ran amser cyn i unrhyw ganlyniadau cadarnhaol neu negyddol ddod i'r amlwg. Mae cromlin ymateb dos yn edrych ar ddata unigol yn unig ac nid yw'n ystyried unrhyw effeithiau cronol, nac unrhyw ffactorau eraill sy'n cyfrannu, ac efallai y bydd grwpiau yn y boblogaeth a allai fod yn fwy agored i unrhyw effaith neu glefyd na'r boblogaeth gyfan. Gall hyn wneud meintioli effeithiau o ran iechyd y cyhoedd yn heriol.

Modelu Ffurfiol

Gall modelu ffurfiol fod yn ddefnyddiol wrth nodi, disgrifio a rhagweld effeithiau ac effeithiau posibl ar iechyd ar y boblogaeth. Gellir defnyddio technegau modelu ochr yn ochr â dulliau ymateb dos a gallant fod yn arbennig o ddefnyddiol pan gânt eu defnyddio i asesu ymyriadau clinigol ac amgylcheddol megis rhagfynegi effeithiau ysmegu, yfed alcohol neu allyriadau gronynnol i'r atmosffer. Unwaith eto, mae'r rhain yn tueddu i ddefnyddio tystiolaeth epidemiolegol a/neu docsicolegol er mwyn rhagweld effeithiau. Mae'r technegau hyn yn ffordd fathemategol o nodi effeithiau posibl ar iechyd drwy wneud set o dybiaethau am achosion a gwneud rhagamcanion rhesymegol er mwyn rhagweld maint unrhyw effeithiau neu ganlyniadau. Er enghraifft, gall model dybio, os bydd A yn digwydd, ar amser neu mewn amgylchiadau B, mai C fydd y canlyniad. Gellir addasu data a rhagdybiaethau er mwyn rhoi senarios gwahanol a rhagweld canlyniadau gwahanol – y gellir eu disgrifio yn rhai buddiol neu niweidiol. Gellir defnyddio'r rhain i gefnogi prosesau gwneud penderfyniadau. Mae sawl enghraifft o fodelau'n cael eu defnyddio gan grwpiau yn Ewrop gan gynnwys BoD, ENHIS X-Prob (Mekel 2007). Mae'r rhain hefyd yn cynnwys DYNAMO-HIA7, sef offeryn Ewropeaidd ar y we a gafodd ei greu yn rhan o brosiect wedi'i sefydlu yn 2007 i gefnogi rhagfynegi effeithiau ar benderfyniaddion ehangach iechyd mewn polisïau Ewropeaidd. Er y gall y dechneg hon fod yn ddefnyddiol, mae yna rai anfanteision, yn yr un modd â dulliau ymateb dos. Nid yw'r model ond cystal â'r rhagdybiaethau a wneir a'r data a ddefnyddir ynddynt ac unwaith eto, nid ydynt yn rhoi darlun ehangach o sut y bydd iechyd a llesiant y boblogaeth neu'r gymuned yn cael eu heffeithio. Er y gellir gwneud rhagfynegiadau, gall fod yn anodd sicrhau sicrwydd y rhagfynegiadau hyn neu'r amrywiad ynddynt. Felly, dylid crynhoi unrhyw ganlyniadau o fodelau neu ddulliau meintiol bob amser â thystiolaeth ac ymchwil arall – gan gynnwys cydweithio ag asiantaethau eraill a chyfranogiad â chymunedau i greu safbwynt mwy cyflawn a chytbwys o unrhyw effeithiau ar iechyd a llesiant

Diagramau Achosol a Mapio

Gall diagramau achosol a mapio effeithiau fod yn ffordd ddefnyddiol o ddelweddu effeithiau posibl cynnig ar iechyd. Mae hefyd yn addas ar gyfer defnyddio dulliau gweithio system. Gall llunio diagram wahaniaethu'n ddarluniadol rhwng unrhyw effeithiau, eu natur a'u maint ac unrhyw newidiadau posibl ar iechyd a llesiant. Dylid mireinio a datblygu'r math hwn o fap wrth i'r HIA fynd rhagddo. Gall diagram achosol gysylltu llwybrau â'i gilydd a thynnu sylw at ryngweithiadau rhyngddynt. Gellir ei ddefnyddio'n fan cychwyn er mwyn ystyried yr effaith ar iechyd, yn ystod y cyfnod cwrmpasu neu i ddangos yr effeithiau wrth i chi fynd ymlaen. Gellir trafod llwybrau a'u cadw neu eu dileu yn ystod y broses (yn dibynnu ar yr wybodaeth a'r dystiolaeth a gesglir) er mwyn darparu diagram neu fap terfynol.